Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*

# RHEOLAU CYNGOR GOFAL CYMRU (YMDDYGIAD) 2011

## Mawrth 2011

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Mae Cyngor Gofal Cymru (The Care Council for Wales), gan weithredu ei bwerau o dan adrannau 59(1), i 59(3) a 71(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a chyda chydsyniad Gweinidogion Cymru[1] yn unol â gofynion 71(4) o Ddeddf 2000 drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### CYFLWYNIAD


1. Enwi, cychwyn, trefniadau trosiannol a rhyddhau rhag tor-rheol
2. Dehongliad
3. Cyflwyno dogfennau


### RHAN II

### PWYLLGORAU


4. Cyfansoddiad y Pwyllgorau
5. Swyddogaeth y Pwyllgorau
6. Gweithdrefn y Pwyllgorau
7. Aelodaeth a Chworwm y Pwyllgorau
8. Pleidleisio
9. Y Cynghorydd Cyfreithiol
10. Y Cynghorydd Meddygol
11. Y Clerc


### RHAN III

### CWYNION


12. Y weithdrefn pan dderbynnir gwybodaeth am unigolyn cofrestredig
13. Cyfeirio achos ar lwybr carlam at y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd
14. Penderfynu ar achosion drwy ymgymeriadau


---

[1] Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu breinio yng Ngweinidogion Cymru drwy weithredu adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32)

## ATODLENNI

1. Gweithdrefn y Pwyllgor Ymchwilio
2. Gweithdrefn y Pwyllgor Ymddygiad a'r Pwyllgor Iechyd
3. Gweithdrefn y Pwyllgor Adfer
4. Cyrff Rheoleiddio Cymeradwy

## RHAN I

## CYFLWYNIAD

### Enwi, cychwyn, trefniadau trosiannol a rhyddhau rhag tor-rheol

1. (1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Ymddygiad) 2011 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol i unrhyw gŵyn a wneir wrth i'r Rheolau hyn ddod i rym neu wedi hynny.

(3) Drwy hyn, mae Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Ymddygiad) 2005 ("Rheolau 2005") yn cael eu dirymu ac eithrio pan fo'r Cyngor wedi cael cwyn cyn i'r Rheolau hyn ddod i rym, a bydd y Cyngor yn ymdrin â'r gŵyn honno yn unol â Rheolau 2005 fel pe bai'r Rheolau hynny'n parhau mewn grym.

(4) Caiff Pwyllgor a sefydlwyd o dan Reol 4, mewn perthynas ag achos gerbron y Pwyllgor hwnnw ac yn unol â gofynion gwrandawiad teg, ryddhau unrhyw barti rhag canlyniad diffyg cydymffurfio ag un o ddarpariaethau'r Rheolau hyn ar y cyfryw amodau ag a wêl yn dda.

### Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall –

ystyr **"y Ddeddf"** yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr **"ceryddu"** yw gorchymyn a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd sy'n arwain at gofnod yn y Gofrestr am gyfnod o hyd at bum mlynedd ac y caiff unrhyw weithrediadau gan y Cyngor yn y dyfodol ei ystyried;

ystyr "**honiad**" yw unrhyw wybodaeth am ymddygiad unigolyn cofrestredig sy'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i aros ar y Gofrestr, ac mae'n cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw'r Cyngor drwy unrhyw fodd;

ystyr **"ymgeisydd"** yw ymgeisydd am gael ei adfer i'r Gofrestr;

ystyr **"Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol"** yw'r Cod Ymarfer a gyhoeddir gan y Cyngor o dan Adran 62(1)(a) o'r Ddeddf sy'n gosod y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol;

ystyr **"cyhuddiad"** yw'r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig fel y nodir yn yr Hysbysiad Gwrandawiad;

ystyr **"cwyn"** yw gwybodaeth am yr unigolyn cofrestredig sy'n sail i honiad yn erbyn yr unigolyn cofrestredig hwnnw ac mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dod i sylw'r Cyngor drwy unrhyw fodd a gwybodaeth sy'n ymwneud â chollfarnau am droseddau a rhybuddion;

"ystyr **"achwynydd"** yw unrhyw berson (yn cynnwys cyflogwr neu sefydliad) sy'n gwneud cwyn yn erbyn yr unigolyn cofrestredig;

ystyr **"ffurflen gwyno"** yw'r ffurflen a gymeradwyir gan y Cyngor at ddibenion Rheol 12;

ystyr **"Gorchmyn Amodau Ymarfer"** yw Gorchymyn a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd sy'n gosod amodau ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig gydymffurfio â hwy;

ystyr **"y Pwyllgor Ymddygiad"** yw'r Pwyllgor â'r enw hwnnw a sefydlir gan y Cyngor o dan Reol 4 isod;

ystyr **"y Cyngor"** yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "**penderfyniad**" yw penderfyniad a wnaed, neu ganfyddiad, gan gorff rheoleiddio;

ystyr **"swyddog a awdurdodir yn briodol"** yw Swyddog i'r Cyngor y dirprwywyd awdurdod iddo gan y Cyngor;

mae **"y cyflogwr"** yn cynnwys asiantaethau cyflogi, yr hunangyflogedig, ac unrhyw un sy'n cyflogi gweithiwr gofal cymdeithasol (i wneud gwaith gweithiwr gofal cymdeithasol) y mae'r Cyngor yn ymwybodol ohono;

ystyr **"y Pwyllgor Iechyd"** yw'r Pwyllgor â'r enw hwnnw a sefydlir gan y Cyngor o dan Reol 4 isod;

ystyr **"Gorchmyn Amodau Ymarfer Interim"** yw gorchymyn a wneir gan Bwyllgor Ymchwilio sy'n gosod amodau ar gofrestriad unigolyn cofrestredig y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig gydymffurfio â hwy;

ystyr **"Gorchymyn Interim"** yw Gorchymyn Amodau Ymarfer Interim neu Orchymyn Gwahardd Atal Interim;

ystyr **"Gorchymyn Atal Interim"** yw gorchymyn i atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig a wnaed gan y Pwyllgor Ymchwilio;

ystyr **"y Pwyllgor Ymchwilio"** yw'r Pwyllgor o'r enw hwnnw a sefydlir gan y Cyngor o dan Reol 4 isod;

ystyr **"person lleyg"** yw rhywun nad yw, ac na fu o fewn bum mlynedd i'w benodi i un o Bwyllgorau'r Cyngor:

(a) yn weithiwr cymdeithasol
(b) yn ymgymryd ag unrhyw un o'r mathau o waith gofal cymdeithasol a nodir yn is-baragraffau (a) i (d) o adran 55(2) neu yn is-baragraffau (a) neu (c) i (g) o adran 55(3) o'r Ddeddf;

(c) yn ymwneud â hyfforddi, addysgu, penodi, cyflogi, cyflenwi, goruchwylio, monitro neu gynrychioli gweithwyr gofal cymdeithasol; neu

(d) yn fyfyriwr;

ystyr **"cynghorydd cyfreithiol"** yw person â chymhwyster cyffredinol deng mlynedd yn unol ag ystyr adran 71 o Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 sy'n gymwys i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

ystyr **"cynghorydd meddygol "** yw ymarferydd meddygol cofrestredig o dan Ddeddf Feddygol 1983, a benodir gan y Cyngor i fod yn bresennol a chynghori pan fo'r Pwyllgor Iechyd yn eistedd (neu pan fo'r Pwyllgor Adfer yn eistedd os mai'r Pwyllgor hwnnw sy'n ymdrin ag achos lle mae Pwyllgor Iechyd wedi gwneud gorchymyn dileu) ;

ystyr **"ymarferwr meddygol"** yw ymarferwr meddygol cofrestredig o dan Ddeddf Feddygol 1983;

ystyr **"camymddygiad"** yw ymddygiad sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i aros ar y Gofrestr;

ystyr **"rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr"** yw'r rhan o'r Gofrestr i'r sawl sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwyir gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf;

ystyr **"y partïon"** yw'r Cyflwynydd (a chaiff gynnwys swyddog o'r Cyngor yn cyfarwyddo'r Cyflwynydd) a'r unigolyn cofrestredig (neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig) mewn gwrandawiad gerbron Pwyllgor, ac mae'n cau allan yr achwynydd yn benodol;

ystyr "**Adolygiad Cyn Gwrandawiad**" yw gwrandawiad a gynhelir gerbron Cynghorydd Cyfreithiol yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 2 sy'n rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â rheoli'r achos;

ystyr **"y Cyflwynydd"** yw'r sawl sy'n gweithredu ar ran y Cyngor mewn gwrandawiad gerbron Pwyllgor, a chaiff gynnwys swyddog o'r Cyngor neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a gyflogir gan y Cyngor i'r diben hwn;

ystyr **"y Gofrestr"** yw'r Gofrestr a gynhelir o dan adran 56 o'r Ddeddf;

ystyr **"unigolyn cofrestredig"** yw person a gofrestrir yn y Gofrestr neu berson sy'n destun Gorchymyn Atal Dros Dro;

ystyr "**corff rheoleiddio**" yw corff fel y'i rhestrir yn Atodlen 4;

ystyr "**Gorchymyn Dileu**" yw gorchymyn i ddileu cofrestriad yr unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr, a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad;

ystyr **"y Pwyllgor Adfer"** yw'r Pwyllgor o'r enw hwnnw a sefydlir gan y Cyngor o dan Reol 4 isod;

mae i **"gweithiwr gofal cymdeithasol"** yr ystyr a geir yn Adran 55(1) o'r Ddeddf fel y'i hestynnir gan Reoliadau a wnaed o dan Adran 55(2) o'r Ddeddf;

ystyr **"myfyriwr"** yw unigolyn a dderbyniwyd gan neu sydd wedi cael cynnig lle gan ddarparwr cwrs i gymryd rhan mewn cwrs a gymeradwyir gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf neu sy'n cymryd rhan mewn cwrs o'r fath;

ystyr **"Gorchymyn Atal"** yw gorchymyn i atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd;

ystyr **"ymgymeriad"** yw cytundeb gan yr unigolyn cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad a gynigir gan y Cyngor yn unol â Rheol 14

ystyr **"prifysgol"** yw'r Brifysgol neu'r Sefydliad Addysg Uwch sy'n darparu'r Cwrs Gradd.

(2) Oni fynna'r cyd-destun fel arall, bydd cyfeiriad –

(a) yn y Rheolau hyn:
  (i) at reol â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheolau hyn, a
  (ii) at atodlen â rhif iddi yn gyfeiriad at yr atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheolau hyn;

(b) mewn rheol yn y Rheolau hyn, neu mewn atodlen iddynt, at baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r atodlen honno;

(c) mewn paragraff mewn atodlen i'r Rheolau hyn, at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu'r atodlen honno.

## Cyflwyno dogfennau

3. Yn y Rheolau hyn –

(a) mae unrhyw gyfeiriad at anfon hysbysiad at unigolyn cofrestredig yn gyfeiriad at anfon hysbysiad drwy'r post cofrestredig, neu drwy wasanaeth post lle cofnodir danfon neu dderbyn, i gyfeiriad yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr, neu, os yw'r cyfeiriad hysbys diwethaf yn wahanol i'r cyfeiriad yn y Gofrestr, i gyfeiriad hysbys diwethaf yr unigolyn cofrestredig;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at anfon hysbysiad at ymgeisydd, yn achos cais am adfer, yn gyfeiriad at anfon hysbysiad drwy'r post cofrestredig, neu drwy wasanaeth post lle cofnodir danfon neu dderbyn, i gyfeiriad yr ymgeisydd yn unol â'r cofnod a oedd yn y Gofrestr cyn dileu enw'r ymgeisydd neu, os yw'r cyfeiriad hysbys diweddaraf yn wahanol i'r cyfeiriad blaenorol yn y Gofrestr, gyfeiriad hysbys diwethaf yr ymgeisydd;

(c) pan fo unrhyw hysbysiad i'w anfon at unigolyn cofrestredig neu ymgeisydd, caiff ei drin fel petai wedi'i gyflwyno ar y diwrnod ar ôl ei bostio.

## RHAN II

## PWYLLGORAU

### Cyfansoddiad y Pwyllgorau

4. (1) Bydd y Cyngor yn sefydlu'r pedwar Pwyllgor fel a ganlyn:

(a) Pwyllgor Ymchwilio;

(b) Pwyllgor Ymddygiad;

(c) Pwyllgor Iechyd; a

(d) Pwyllgor Adfer.

### Swyddogaeth y Pwyllgorau

### Pwyllgor Ymchwilio

5. (1) Dyletswydd y Pwyllgor Ymchwilio fydd ystyried unrhyw gŵyn(ion) yn erbyn unigolyn cofrestredig a gyfeirir ato, a phenderfynu:

(a) a ddylid cyfeirio'r gŵyn/cwynion i'r Pwyllgor Ymddygiad neu i'r Pwyllgor Iechyd;

(b) a yw'n angenrheidiol er mwyn diogelu unigolynau'r cyhoedd, neu a yw fel arall er budd y cyhoedd, neu a yw er budd yr unigolyn cofrestredig dan sylw, i'r Pwyllgor wneud Gorchymyn Atal Interim neu Orchymyn Amodau Ymarfer Interim;

(c) a ddylid gwneud ymchwiliadau pellach;

(d) a ddylid peidio â chymryd camau pellach ynglŷn â'r gŵyn;

(e) pan na chymerir camau pellach, a ddylid atgoffa'r unigolyn cofrestredig o delerau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

(2) Pan fo'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu cyfeirio cwyn, bydd yn cyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Ymddygiad oni bai bod y Pwyllgor Ymchwilio ar ôl cael cyngor gan y cynghorydd meddygol o'r farn y gallai afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig fod wedi achosi'r camymddygiad honedig (os yw'n wir), neu y gallai fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato, ac os felly bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Iechyd.

(3) Bydd y Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan y Cyngor, ar unrhyw bryd, y dylid gosod Gorchymyn Atal Interim ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig, ar y sail fod y cyfryw orchymyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu

unigolynau'r cyhoedd neu ei fod fel arall er budd y cyhoedd, neu ei fod er budd yr unigolyn cofrestredig dan sylw.

### Y Pwyllgor Ymddygiad a'r Pwyllgor Iechyd

(4) Dyletswydd y Pwyllgor Ymddygiad a'r Pwyllgor Iechyd fydd ystyried:

(a) unrhyw gyhuddiad yn erbyn unigolyn cofrestredig a gyfeirir atynt, a phenderfynu:

(i) a yw'r unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn;
(ii) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn, pa gosb y dylid ei rhoi i'r unigolyn cofrestredig;
(iii) pan na fo'r unigolyn cofrestredig yn ffit i ateb unrhyw gyhuddiadau yn ei erbyn, a ddylid atal yr unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr.

### Pwyllgor Adfer

(5) Dyletswydd y Pwyllgor Adfer fydd ystyried unrhyw gais am adferiad i'r Gofrestr a gyfeirir ato a phenderfynu:

(a) a ddylid, yn holl amgylchiadau'r achos, a chan ystyried y materion a amlinellir ym mharagraff 8(2) o Atodlen 3, adfer yr unigolyn cofrestredig i'r Gofrestr; a
(b) pan benderfynir adfer yr unigolyn cofrestredig, a ddylid gosod amodau ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig.

### Gweithdrefn y Pwyllgorau

6. (1) Bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn dilyn y weithdrefn a amlinellir yn Atodlen 1.

(2) Bydd y Pwyllgor Ymddygiad a'r Pwyllgor Iechyd yn dilyn y weithdrefn a amlinellir yn Atodlen 2.

(3) Bydd y Pwyllgor Adfer yn dilyn y weithdrefn a amlinellir yn Atodlen 3.

### Aelodaeth a Chworwm y Pwyllgorau

7. (1) Bydd y Cyngor yn cynnal cronfa o aelodau y penodir aelodau'r Pwyllgorau unigol sydd yn gwrando achos penodol ohoni.

(2) Bydd hyd at bum aelod ar bob Pwyllgor, wedi'u penodi gan y Cyngor.

(3) Tri fydd cworwm pob Pwyllgor, a bydd pob Pwyllgor yn eistedd gyda naill ai dri neu bum aelod yn bresennol.

(4) Bydd pob Pwyllgor yn cynnwys o leiaf un person lleyg yn aelod.

(5) Bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd i bob Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn berson lleyg.

(6) Ni fydd aelodau'r Cyngor yn eistedd fel aelodau ar unrhyw Bwyllgor y cyfeirir ato yn Rheol 4(1).

(7) Bydd y Cyngor yn sicrhau y penodir aelod i bob Pwyllgor sydd â phrofiad neu ddealltwriaeth o'r maes gwaith gofal cymdeithasol a arferir gan yr unigolyn cofrestredig neu'r ymgeisydd y mae ei achos dan ystyriaeth oni bai bod yr unigolyn cofrestredig neu'r ymgeisydd ar y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr yn unig.

(8) Penodir aelodau pob Pwyllgor am gyfnod heb fod yn fwy na phedair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailbenodi am gyfnod heb fod yn fwy na phedair blynedd.

(9) Ni chaiff yr un aelod o unrhyw Bwyllgor Ymddygiad neu Bwyllgor Iechyd eistedd fel y cyfryw ar wrandawiad achos unigolyn cofrestredig, os bu'r unigolyn hwnnw'n unigolyn o Bwyllgor Ymchwilio a oedd yn ystyried cwyn yn erbyn yr unigolyn cofrestredig.

(10) Er gwaethaf (9) uchod, caiff aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio eistedd fel y cyfryw yn y cyfarfod cyntaf ac unrhyw gyfarfod dilynol a gynhelir i ystyried achos unigolyn cofrestredig gan y Pwyllgor hwnnw.

## Pleidleisio

8. (1) Gwneir penderfyniadau gan bob Pwyllgor drwy fwyafrif syml.

(2) Ni fydd gan Gadeirydd unrhyw Bwyllgor bleidlais fwrw.

(3) Tybir bod unrhyw atal pleidlais yn bleidlais o blaid yr unigolyn cofrestredig.

## Y Cynghorydd Cyfreithiol

9. (1) Bydd cynghorydd cyfreithiol yn bresennol bob tro y bydd y Pwyllgor yn eistedd. Bydd y cynghorydd cyfreithiol yn bresennol hefyd yn ystod trafodaethau pob Pwyllgor.

(2) Rôl y cynghorydd cyfreithiol fydd cynghori pob Pwyllgor ar faterion cyfreithiol, a sicrhau y caiff yr achosion gerbron pob Pwyllgor eu cynnal yn deg. I'r perwyl hwn, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn hysbysu Pwyllgor ar unwaith pan fo o'r farn bod afreoleidd-dra yn y modd y cynhelir achos gerbron y Pwyllgor hwnnw.

(3) Pan gynhelir gweithrediadau Pwyllgor yn breifat, rhaid i'r Pwyllgor hwnnw gadw cofnod o unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol.

(4) Pan gynhelir gweithrediadau Pwyllgor yn gyhoeddus, rhaid i gyngor y cynghorydd cyfreithiol gael ei roi gerbron y partïon. Caiff unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol yn ystod trafodaethau preifat y Pwyllgor ei ailadrodd wedyn gerbron y partïon.

(5) Caiff y partïon gyfle i roi sylwadau ar gynnwys y cyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol. Yna, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn asesu a oes angen

newid y cyngor a gynigiwyd yng ngoleuni'r sylwadau a gyflwynwyd gan y partïon a bydd yn cynghori'r Pwyllgor yn unol â hynny, yng ngŵydd y partïon.

(6) Ni fydd y cynghorydd cyfreithiol yn cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor wrth iddo ystyried achos ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

## Cynghorydd Meddygol

10. (1) Pan ymddengys i'r Cyngor y gallai afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig fod wedi achosi'r camymddygiad honedig (os yw'n wir), neu y gallai fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato, bydd y Cyngor yn penodi cynghorydd meddygol i gynghori pob Pwyllgor a fydd yn ystyried yr honiadau o gamymddygiad.

(2) Bydd cynghorydd meddygol yn bresennol pan fo'r Pwyllgor Iechyd yn eistedd a phan fo Pwyllgor Adfer yn eistedd pan oedd y gorchymyn dileu wedi'i wneud gan Bwyllgor Iechyd. Bydd y cynghorydd cyfreithiol yn bresennol hefyd yn ystod trafodaethau pob Pwyllgor.

(3) Pan nad yw'r unigolyn cofrestredig neu gyn-unigolyn cofrestredig yn bresennol yn ystod gweithrediadau Pwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor hwnnw gadw cofnod o unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd meddygol.

(4) Pan fo'r partïon yn bresennol yn ystod gweithrediadau Pwyllgor, rhaid i gyngor y cynghorydd meddygol gael ei roi gerbron y partïon. Caiff unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd meddygol yn ystod trafodaethau preifat y Pwyllgor ei ailadrodd wedyn gerbron y partïon.

(5) Caiff y partïon gyfle i roi sylwadau ar gynnwys y cyngor a roddir gan y cynghorydd meddygol a phan fo sylwadau wedi'u cyflwyno ar gynnwys y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd meddygol, bydd y cynghorydd meddygol yn ystyried a ddylid diwygio'r cyngor a bydd yn cynghori'r Pwyllgor yn unol â hynny, yng ngŵydd y partïon.

(6) Ni fydd y cynghorydd meddygol yn cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor wrth iddo ystyried achos ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

## Y Clerc

11. (1) Cynorthwyir pob Pwyllgor gan Glerc a fydd yn gyfrifol am y trefniadau gweinyddol ar gyfer y gwrandawiad.

(2) Ni fydd y Clerc yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

## RHAN III

## CWYNION

### Y weithdrefn pan dderbynnir gwybodaeth am unigolyn cofrestredig

12. (1) Pan dderbynnir gwybodaeth am unigolyn cofrestredig, bydd swyddog a awdurdodir yn briodol yn ystyried yn gyntaf a ellir dweud bod y cyfryw wybodaeth yn gyfystyr â chwyn.

(2) Dim ond lle bo'r gyfryw wybodaeth:

(a) yn ymwneud ag unigolyn cofrestredig y gellir ei adnabod; a
(b) yn sail i honiad o gamymddwyn yn erbyn yr unigolyn cofrestredig;

y dylai ystyried y gall gwybodaeth fod yn gyfystyr â chwyn.

(3) Lle nad ystyrir bod y wybodaeth yn gyfystyr â chwyn, bydd y Cyngor yn hysbysu'r sawl a ddarparodd y wybodaeth na weithredir ymhellach ac y caiff y mater ei gau.

(4) Lle y gall y wybodaeth fod yn gyfystyr â chwyn a phan nad oes ffurflen gŵyn wedi ei derbyn, caiff y Cyngor anfon at unrhyw un y mae'r Cyngor yn ystyried yn briodol gopi o ganllawiau'r Cyngor ynghylch gwneud cwyn a ffurflen gwyno a chaiff hefyd ddarparu cyngor ar ddulliau eraill o ddatrys cwyn, gan gynnwys cyfryngu neu ddulliau cywiro a fo ar gael drwy gyflogwr(wyr) unigolyn cofrestredig).

(5) Pan fo'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am unigolyn cofrestredig a all fod yn gyfystyr â chwyn, bydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr unigolyn cofrestredig

(a) yn ei hysbysu am y gŵyn
(b) yn ei wahodd i ymateb i'r gŵyn â sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad y llythyr.

Bydd y Cyngor yn ei hysbysu am hynt ymchwiliad y Cyngor.

(6) Pan fo'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am unigolyn cofrestredig a all fod yn gyfystyr â chwyn, bydd y Cyngor yn hysbysu'r sawl a roddodd y wybodaeth, yr unigolyn cofrestredig a chyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai), pan gofrestrir yr unigolyn cofrestredig yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol, o'r wybodaeth ac yn eu hysbysu (ac unrhyw gyflogwr sy'n cyflogi'r unigolyn cofrestredig wedyn ) am hynt ymchwiliad y Cyngor.

(7) Er mwyn canfod a ellir dweud bod unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd yn gyfystyr â chwyn, caiff y Cyngor wneud y cyfryw ymholiadau rhagarweiniol ag a fo'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau yn ei farn ef, gan gynnwys cyfarwyddo cyfreithwyr i ymchwilio i'r mater, a cheisio gwybodaeth bellach neu eglurhad gan yr unigolyn cofrestredig, cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai), pan gofrestrir yr unigolyn cofrestredig yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol neu unrhyw ffynhonnell arall.

(8) Pan fo'r Cyngor yn derbyn honiadau dienw, neu pan nad yw achwynwyr yn dymuno mynd ymhellach â'r gŵyn, bydd y Cyngor yn ymchwilio i'r mater ac os yw'n fodlon bod yr honiadau'n gyfystyr â chwyn, bydd y Cyngor yn gweithredu fel yr achwynydd.

(9) Pan fo'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth am unigolyn cofrestredig, a bod yr unigolyn cofrestredig hwnnw eisoes yn destun ymchwiliad gan yr heddlu, unrhyw ymchwiliad statudol neu dribiwnlys, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, neu gorff rheoleiddio arall a amlinellir yn Atodlen 4, caiff y Cyngor ohirio ymchwilio i gŵyn neu ei chyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio, hyd nes bydd y cyfryw ymchwiliad wedi dod i ben.

(10) Mewn perthynas â phob cwyn, bydd swyddog a awdurdodir yn briodol yn ystyried a oes gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â phob honiad sy'n sail i'r gŵyn.

(11) Pan fo'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn nad oes gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas ag unrhyw honiad sy'n sail i'r gŵyn bydd y Cyngor yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwnnw o fewn saith diwrnod i:

(a) yr unigolyn cofrestredig;

(b) y Cyngor;

(c) yr achwynydd;

(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);

(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr i fyfyrwyr, y Brifysgol.

(12) Pan fo'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn bod gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â honiad sy'n sail i'r gŵyn bydd yn ystyried:

(a) a ddylid cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymchwilio i'w ystyried o dan baragraffau 1 i 5 o Atodlen 1; neu
(b) a ddylid cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd o dan Reol 13; neu
(c) a ddylid ymdrin â'r achos o dan Reol 14; neu
(d) a ddylid gwneud cais am Orchymyn Interim o dan baragraff 9 o Atodlen 1.

(13) Er mwyn:

(a) canfod a oes unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd yn gyfystyr â chwyn;
(b) canfod a oes gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â phob honiad sy'n sail i'r gŵyn neu benderfynu a ddylid gwneud cais am Orchymyn Interim,

caiff y Cyngor wneud y cyfryw ymholiadau a cheisio'r cyfryw gyngor ag y cred sy'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau, gan gynnwys cyfarwyddo cyfreithwyr,

ceisio gwybodaeth bellach neu eglurhad gan yr unigolyn cofrestredig neu gyflogwr yr unigolyn cofrestredig.

(14) Pan fo'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth, drwy ba fodd neu ffynhonnell bynnag, fod unigolyn cofrestredig wedi cael ei gollfarnu o drosedd neu wedi cael rhybudd neu fath arall o gosb droseddol ac mae'r drosedd yn un nad yw'n gyfystyr â chwyn drwy gyfeirio at restr o droseddau a gynhelir gan y Cyngor, ni fydd y Cyngor yn cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Ymchwilio oni bai, ym marn y Cyngor, fod yr amgylchiadau yn codi amheuaeth ynghylch a yw gweithredoedd yr unigolyn cofrestredig yn gyfystyr â chamymddwyn.

(15) Pan fo'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth, drwy ba gyfrwng neu ffynhonnell bynnag, fod unigolyn cofrestredig wedi cael ei drwydded yrru wedi ei hardystio o dan Ddeddf Troseddwyr Traffic Ffyrdd 1988, fel y'i diwygiwyd neu y'i disodlwyd o bryd i'w gilydd o ganlyniad i dalu cosb benodedig, ni fydd y Cyngor yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio oni bai, ym marn y Cyngor, fod yr amgylchiadau sy'n arwain at ardystio trwydded yn codi amheuaeth ynghylch a yw gweithredoedd yr unigolyn cofrestredig yn gyfystyr â chamymddwyn.

(16) Pan fo'r Cyngor yn penderfynu peidio â chyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwilio o dan baragraffau (10), (12) neu (13) o'r Rheol hon, caiff y Cyngor atgoffa'r unigolyn cofrestredig o delerau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, a hysbysu'r unigolyn cofrestredig y bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r nodyn atgoffa hwnnw a'r rhesymau drosto.

## Cyfeirio achos ar lwybr carlam at y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd

13. (1) Pan fo'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn bod gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â honiad sy'n sail i'r gŵyn caiff gyfeirio'r achos yn uniongyrchol at y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd:

(a) pan fo modd dibynnu ar y canfyddiadau ffeithiol a wnaed gan unrhyw un o'r cyrff rheoleiddio a nodir yn ATODLEN 4 neu gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol fel tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o dan baragraff 10(6) o Atodlen 2; neu

(b) pan fo'r honiad yn seiliedig ar gollfarn gan Lys yn y DU y gellir ei chadarnhau drwy dystysgrif collfarn.

(2) Caiff achos ei gyfeirio o dan y Rheol hon yn uniongyrchol at y Pwyllgor Ymddygiad oni bai bod swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn y gallai afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig fod wedi achosi'r camymddygiad honedig (os yw'n wir), neu y gallai fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato, ac os felly caiff y gŵyn ei chyfeirio'n uniongyrchol at y Pwyllgor Iechyd.

(3) Pan gyfeirir yr achos at y Pwyllgor Ymddygiad neu at y Pwyllgor Iechyd, bydd swyddog a awdurdodir yn briodol o fewn 7 diwrnod yn anfon Hysbysiad Trosglwyddo at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;

(c) yr achwynydd;
(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);
(e) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol

(4) Bydd yr Hysbysiad Trosglwyddo yn nodi bod yr achos wedi'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Ymddygiad neu i'r Pwyllgor Iechyd a'r rhesymau pam.

(5) Pan fydd swyddog a awdurdodir yn briodol wedi penderfynu y dylid trosglwyddo'r achos i'r Pwyllgor Iechyd, bydd yr Hysbysiad Trosglwyddo yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r ffaith honno, a hefyd yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i gytuno o fewn 14 diwrnod i ddyddiad anfon yr Hysbysiad:

(a) i gael ei archwilio (ar gost y Cyngor) gan Ymarferydd Meddygol a enwebir gan y Cyngor; a

(b) y bydd y cyfryw Ymarferydd Meddygol yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd ar a allai afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig fod wedi achosi'r camymddygiad honedig (os yw'n wir), neu y gallai fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato.

## Penderfynu ar achosion drwy ymgymeriadau

14. (1) Pan fo swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn bod gwir bosibIrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â honiad sy'n sail i'r gŵyn, ond ei bod yn briodol penderfynu ar yr achos drwy fodd cytundeb gan yr unigolyn cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad neu ymgymeriadau, bydd y Cyngor o fewn 7 diwrnod yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig i'r perwyl hwnnw ac yn rhoi telerau'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(2) Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid penderfynu ar achosion o dan baragraff (1):

(a) os yw'r unigolyn cofrestredig yn cyfaddef yr honiad,
(b) pan fo'r unigolyn cofrestredig yn cyfaddef bod ei weithredoedd yn gyfystyr â chamymddwyn, a
(c) pan fo'r unigolyn cofrestredig yn cadarnhau o fewn 14 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei gyflwyno ei fod neu ei bod yn cytuno i gydymffurfio â'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(3) Pan na fo'r unigolyn cofrestredig yn cytuno i benderfyniad yn unol â pharagraff (2) o'r Rheol hon, caiff yr achos ei gyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio i'w ystyried o dan baragraffau 1 i 5 o'r Atodlen 1.

(4) Pan benderfynir ar yr achos drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r Rheol hon bydd y Cyngor o fewn 7 diwrnod yn hysbysu:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);

(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol.

(5) Caiff y Cyngor hysbysu:

(a) Llywodraeth Cynulliad Cymru;
(b) yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

(6) Pan benderfynir ar achos drwy ymgymeriad yn unol â'r Rheol hon, caiff swyddog a awdurdodir yn briodol ofyn i :

(a) yr unigolyn cofrestredig; neu
(b) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai)

am y cyfryw wybodaeth ag a fydd yn galluogi'r Cyngor i benderfynu a gydymffurfiwyd â'r ymgymeriad neu a barheir i gydymffurfio â'r ymgymeriad

(7) Pan benderfynir ar yr achos drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r Rheol hon ac mae swyddog a awdurdodir yn briodol wedyn yn derbyn gwybodaeth i'r unigolyn cofrestredig gydymffurfio'n llawn â gofynion yr ymgymeriad(au), bydd y Cyngor yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig na ddylai'r ymgymeriad(au) fod yn gymwys mwyach a chaiff hysbysu'r personau eraill hynny a nodir ym mharagraffau (4) a (5) o'r Rheol hon i'r perwyl hwnnw.

(8) Pan benderfynir ar yr achos drwy ymgymeriad(au) yn unol â'r Rheol hon ac mae'r Cyngor wedyn yn derbyn gwybodaeth sy'n nodi na chydymffurfiwyd ag ymgymeriad (neu mae'r unigolyn cofrestredig yn methu â rhoi gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gais o dan baragraff (6) (a) o'r Rheol hon), caiff y Cyngor:

(a) gyfeirio'r honiad gwreiddiol at y Pwyllgor Ymchwilio o dan baragraffau 1 i 5 o Atodlen 1; a

(b) drin y methiant i gydymffurfio â'r ymgymeriad(au) fel honiad ar wahân o gamymddygiad a chyfeirio'r honiad hwn at y Pwyllgor Ymchwilio.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Gofal Cymru

.....

Arwel Ellis Owen
Cadeirydd Cyngor Gofal Cymru

24 Mawrth 2011

.....

Dyddiad

Cydsyniaf i'r Rheolau hyn ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

.....

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol

28 Mawrth 2011

.....

Dyddiad

Tud. 17
Llofnod.

## ATODLEN 1

### GWEITHDREFN Y PWYLLGOR YMCHWILIO

### TREFN Y PARAGRAFFAU


1. Dehongliad
2. Gwrandawiadau cyhoeddus neu breifat
3. Hysbysiad o Gyfeiriad
4. Ystyriaeth gan y Pwyllgor
5. Penderfynu ar y Mater
6. Hysbysiad Trosglwyddo
7. Ymchwiliad pellach gan y Cyngor
8. Canslo gwrandawiad
9. Gorchmynion Interim
10. Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos
11. Newid y Gofrestr
12. Adolygu Gorchmynion Interim
13. Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos
14. Newid y Gofrestr

## Dehongliad

1. (1) Yn yr Atodlen hon, ystyr 'y Pwyllgor' yw'r Pwyllgor Ymchwilio.

## Eisteddiadau Cyhoeddus neu Breifat

2. (1) Yn amodol ar (2) isod, cynhelir gweithrediadau'r Pwyllgor yn breifat.

(2) Pan fo'r Pwyllgor yn ystyried a yw am osod Gorchymyn Interim ai peidio ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig, caiff y Pwyllgor eistedd yn gyhoeddus, os gofynna'r unigolyn cofrestredig am hynny.

## Hysbysiad o Gyfeiriad

3. (1) O leiaf 28 diwrnod cyn ystyried achos yr unigolyn cofrestredig, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Gyfeiriad at yr unigolyn cofrestredig a'r Cyngor ynghyd â'r canlynol

(a) datganiad o'r gŵyn ac unrhyw ddogfennau ategol;
(b) copi o'r Rheolau hyn.

(2) Bydd yr Hysbysiad o Gyfeiriad:

(a) yn amlinellu'r gŵyn sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i aros ar y Gofrestr;
(b) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y gŵyn o fewn 14 diwrnod i gyflwyno'r Hysbysiad;
(c) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am ddyddiad y gwrandawiad;
(d) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig y caiff y Pwyllgor, a'r Cyngor, geisio gwybodaeth bellach am y gŵyn gan gyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai), os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr oddi wrth Brifysgol yr unigolyn cofrestredig, neu oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

## Ystyriaeth gan y Pwyllgor

4. (1) O fewn 14 diwrnod cyn ystyried achos yr unigolyn cofrestredig, bydd yr unigolyn cofrestredig yn rhoi i'r Clerc gopïau o unrhyw ddogfennau y mae'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu dibynnu arnynt.

(2) Rhaid i unrhyw dystiolaeth ddogfennol sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor gael ei chyflwyno i'r Clerc, saith diwrnod cyn yr eisteddiad.

(3) Oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol ym marn y Pwyllgor, ac os hynny caiff y cyfnod o saith diwrnod a nodir isod ei fyrhau fel y gwêl y Cyngor yn dda, o leiaf saith diwrnod cyn i'r achos gael ei ystyried, rhaid i'r Cyngor ddarparu i'r Clerc:

(a) datganiad o'r gŵyn;
(b) copi o'r ffurflen gwyno wedi'i llofnodi (os oes un);
(c) unrhyw ddogfennau perthnasol neu ddatganiadau tystion;

(d) argymhellion ar gyfer penderfynu ar y mater;

a bydd y Clerc yn cyflwyno copïau o'r eitemau y cyfeirir atynt yn (a) i (d) uchod i unigolynau'r Pwyllgor i ystyried yr achos.

(4) Bydd y Pwyllgor yn ystyried y gŵyn yn erbyn yr unigolyn cofrestredig, ac unrhyw wybodaeth a gafwyd gan gyflogwr yr unigolyn cofrestredig, os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol, neu ffynhonnell arall.

(5) Bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried argymhellion y Cyngor ar gyfer penderfynu ar y mater ynghyd ag unrhyw ddogfennau pellach a ddarperir gan y Cyngor, ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dogfennau a ddarperir gan yr unigolyn cofrestredig.

(6) Ac eithrio pan fo'r Pwyllgor yn ystyried a ddylid gwneud Gorchymyn Interim ai peidio, ni fydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth ar lafar.

(7) Caiff y Pwyllgor ohirio ei achos ar unrhyw adeg er mwyn cael mwy o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.

## Penderfynu ar y mater

5. (1) Caiff y Pwyllgor Ymchwilio

(a) peidio â chymryd camau pellach, a dod â'r achos i ben;

(b) cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymddygiad neu at y Pwyllgor Iechyd;

(c) rhoi cyfarwyddyd am ymchwiliadau pellach a gohirio'r mater;

(d) pan gyhoeddwyd Hysbysiad o dan Reol 9, gosod Gorchymyn Interim ar gofrestriad yr unigolyn cofrestredig, os yw'n fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn diogelu unigolynau'r cyhoedd neu ei fod fel arall er budd y cyhoedd neu er budd yr unigolyn cofrestredig.

(2) Ni fydd y Pwyllgor yn cyfeirio cwyn at y Pwyllgor Ymddygiad oni bai ei fod yn fodlon bod gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â'r gŵyn.

(3) Ni fydd y Pwyllgor yn cyfeirio cwyn at y Pwyllgor Iechyd oni bai ei fod yn fodlon bod gwir bosibilrwydd o ganfod camymddygiad mewn perthynas â'r gŵyn a bod afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig wedi achosi'r camymddygiad honedig, neu fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato

(4) Pan fo'r Pwyllgor Ymchwilio o dan baragraffau (1) (a) yn penderfynu na ddylid cymryd camau pellach, caiff y Pwyllgor atgoffa'r unigolyn cofrestredig o delerau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, a hysbysu'r unigolyn cofrestredig y bydd cofnod o'r nodyn atgoffa hwnnw a'r rhesymau drosto yn cael ei gadw ar gofnodion yr unigolyn cofrestredig.

(5) Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu na chyfeirir cwyn at y Pwyllgor Ymddygiad na'r Pwyllgor Iechyd ac nad oes angen ymchwiliad pellach, bydd y Clerc o fewn 7 diwrnod yn anfon hysbysiad ysgrifenedig, gyda'r rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor, at yr unigolyn cofrestredig, y Cyngor, yr achwynydd a'r cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai) ac os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, i'r Brifysgol.

## Hysbysiad Trosglwyddo

6. (1) Pan fo'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid trosglwyddo'r achos i'r Pwyllgor Ymddygiad neu i'r Pwyllgor Iechyd, bydd y Clerc o fewn 7 diwrnod yn anfon Hysbysiad Trosglwyddo at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);
(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol.

(2) Bydd yr Hysbysiad Trosglwyddo:

(a) yn rhoi rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor;
(b) yn dweud bod yr achos wedi'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Ymddygiad ynteu i'r Pwyllgor Iechyd, a'r rhesymau pam.

(3) Pan fo'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid trosglwyddo'r achos i'r Pwyllgor Iechyd, bydd yr Hysbysiad Trosglwyddo yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r ffaith honno, a hefyd yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i gytuno o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonir yr Hysbysiad:

(a) i gael ei archwilio (ar gost y Cyngor) gan ymarferydd meddygol a enwebir gan y Cyngor; a
(b) y bydd y cyfryw ymarferydd meddygol yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd ar a allai afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig fod wedi achosi'r camymddygiad honedig, neu y gallai fod wedi cyfrannu'n sylweddol ato.

## Ymchwiliad pellach gan y Cyngor

7. (1) Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Trosglwyddo, bydd y Cyngor yn cymryd y cyfryw gamau ag a fo'n angenrheidiol yn ei olwg i drefnu ar gyfer ymchwilio a pharatoi'r achos yn erbyn yr unigolyn cofrestredig ar gyfer gwrandawiad.

## Canslo gwrandawiad

8. (1) Pan fo'n ymddangos yn ystod y cyfnod pan fo'r Cyngor yn paratoi'r achos ar gyfer gwrandawiad, na ddylai'r mater fynd ymlaen i wrandawiad mwyach, neu pan fo'r Cynghorydd Cyfreithiol yn gwneud y cyfryw argymhelliad mewn adolygiad cyn gwrandawiad, bydd y Cyngor yn cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor

Ymchwilio gael ailystyried a ddylid cyfeirio'r gŵyn i'r Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd ai peidio.

## Gorchmynion Interim

9. (1) Caiff y Cyngor wneud cais am Orchymyn Interim pan fo'n ystyried bod y cyfryw gam:

(a) yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd; neu
(b) fel arall er budd y cyhoedd; neu
(c) er budd yr unigolyn cofrestredig.

(2) Pan fo'r Cyngor yn dymuno gwneud cais am Orchymyn Interim, bydd Hysbysiad o Wrandawiad yn cael ei anfon at yr unigolyn cofrestredig a fydd

(a) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i fynychu'r gwrandawiad;

(b) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawiad;

(c) yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig hysbysu'r Pwyllgor a yw'r unigolyn cofrestredig yn dymuno i'r achos gael ei wrando'n breifat neu'n gyhoeddus;

(d) yn darparu datganiad cryno i'r unigolyn cofrestredig o'r materion yr ymddengys eu bod yn codi'r cwestiwn –

(i) a ddylid atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig neu a ddylai fod yn ddarostyngedig i amodau; a

(ii) pam y mae angen gweithredu felly er mwyn diogelu unigolynau'r cyhoedd neu y mae fel arall er budd y cyhoedd neu er budd yr unigolyn cofrestredig;

(e) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i roi tystiolaeth ei hun, i alw tystion ac i groesholi unrhyw dystion a elwir gan y Cyngor;

(f) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor ei hun neu i gael ei gynrychioli gan:

(i) cyfreithiwr; neu
(ii) bargyfreithiwr; neu
(iii) cynrychiolydd o Undeb Llafur yr unigolyn cofrestredig; neu
(iv) cynrychiolydd o Gorff Proffesiynol yr unigolyn cofrestredig, neu,
(v) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, gynrychiolydd o gorff myfyrwyr;

(g) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig y caiff y Pwyllgor, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff (f) uchod;

(h) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig fod yn rhaid anfon unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff (f) uchod at y Clerc o leiaf 48 awr cyn i'r Pwyllgor gyfarfod;

(i) yn gofyn am gadarnhad a yw'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu:

(i) dod i'r gwrandawiad;
(ii) cael ei gynrychioli yn y cyfarfod;

(j) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig nad oes hawl gan unigolyn sy'n bwriadu dod i gyfarfod o'r Pwyllgor i gynrychioli neu fod gyda'r unigolyn cofrestredig ac sydd hefyd yn mynd i roi tystiolaeth, i fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes y bydd wedi rhoi'r dystiolaeth honno, heb ganiatâd y Pwyllgor.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5) isod pan fo Hysbysiad o Wrandawiad o dan baragraff (2) yn cael ei gyhoeddi, rhaid gwrando cais am Orchymyn Interim o leiaf saith diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad o wrandawiad i'r unigolyn cofrestredig.

(4) Pan wneir cais brys am Orchymyn Interim gan y Cyngor ar sail diogelu'r cyhoedd, caiff y Pwyllgor hepgor y cyfnod o rybudd y cyfeirir ato ym mharagraff (3) uchod.

(5) Er gwaethaf paragraff (4) uchod, ni chaiff y Pwyllgor osod Gorchymyn Interim ar gofrestriad unigolyn cofrestredig heb yn gyntaf roi rhybudd i'r unigolyn cofrestredig o'r cyfryw fwriad ag sy'n rhesymol o dan holl amgylchiadau'r achos, a rhoi cyfle i'r unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, gyflwyno sylwadau llafar a sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Os yw'n angenrheidiol, bydd y Pwyllgor yn gohirio i'r diben hwn.

(6) Yn ychwanegol at y weithdrefn a nodir ym mharagraff (7) isod, bydd paragraffau 5, 8 (2) a (3), 9, 10, 12, 18 a 19 o Atodlen 2 yn gymwys pan fo'r Pwyllgor yn ystyried a ddylid gwneud Gorchymyn Interim ai peidio.

(7) Pan fo'r Pwyllgor yn ystyried a ddylid gwneud Gorchymyn Interim ai peidio, bydd trefn y gweithrediadau fel a ganlyn:

(a) Bydd y Cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos ac yn nodi'r rhesymau pam y dylai cofrestriad yr unigolyn cofrestredig fod yn destun Gorchymyn Interim, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;

(b) Bydd yr unigolyn cofrestredig (os yw'n bresennol) yn nodi'r rhesymau pam na ddylai'r cyfryw gais gael ei ganiatáu gan y Pwyllgor, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol;

(c) Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor gan y Cynghorydd Cyfreithiol;

(d) Bydd y Pwyllgor yn trafod yn breifat;

(e) Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu y dylid gosod Gorchymyn Amodau Ymarfer Interim, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r amod(au) sydd i'w gynnwys (i'w cynnwys) yn y Gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig (pan fo'n bresennol) a'r Cyflwynydd i wneud sylwadau ar eiriad yr amod(au) arfaethedig a gallu'r unigolyn cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar eiriad terfynol yr amod(au);

(f) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y cais ac yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yng ngŵydd y partïon;

(g) Pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi gofyn am i'r achos gael ei gynnal yn gyhoeddus, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei benderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, yn gyhoeddus.

(8) Pan fo'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol gosod Gorchymyn Interim, ni fydd y cyfryw orchymyn yn para mwy na chwe mis i gychwyn.

(9) O fewn saith diwrnod i ddiwedd y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) y cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai)
(e) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol;

(10) Caiff y Cyngor hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(11) Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn:

(a) cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y Cynghorydd Cyfreithiol neu'r Cynghorydd Meddygol;
(b) nodi penderfyniad y Pwyllgor;
(c) nodi'r rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor;
(d) pan wnaethpwyd Gorchymyn Atal Interim, nodi'r cyfnod atal, gan ddechrau ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn;
(e) pan wnaethpwyd Gorchymyn Amodau Ymarfer Interim, nodi parhad y Gorchymyn a'r amod neu'r amodau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig gydymffurfio ag ef/hwy;
(f) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am ei hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal).

## Nodiadau a thrawsgrifiad o'r achos

10. (1) Caiff yr achos gerbron y Pwyllgor ei recordio.

(2) Ar gais, bydd y Cyngor yn anfon trawsgrifiad o unrhyw ran o'r achos pan fu'r unigolyn cofrestredig yn bresennol at yr unigolyn cofrestredig.

## Newid y Gofrestr

11. (1) Pan fo'r Pwyllgor wedi gosod Gorchymyn Interim ar gofrestriad unigolyn cofrestredig, bydd y Cyngor yn nodi manylion y Gorchymyn wrth ymyl enw'r unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr.

## Adolygu Gorchmynion Interim

12. (1) Caiff y Cyngor, neu unrhyw un y gwnaethpwyd Gorchymyn Interim yn ei gylch, ofyn i'r Pwyllgor Ymchwilio adolygu'r Gorchymyn mewn gwrandawiad adolygu.

(2) Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, ni fydd rheidrwydd ar y Pwyllgor i adolygu Gorchymyn Interim tan 3 mis wedi'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

(3) Pan fo'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu gwneud Gorchymyn Interim pellach yn unol â'r darpariaethau a nodir ym mharagraff 12 o Atodlen 1, ni fydd cyfanswm y cyfnod atal neu'r amodau ymarfer yn fwy na chyfnod o ddwy flynedd, gan gynnwys y cyfnod a bennwyd yn y Gorchymyn gwreiddiol.

(4) Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu adolygu Gorchymyn Interim, anfonir Hysbysiad Adolygu at yr unigolyn cofrestredig a'r Cyngor o leiaf 28 diwrnod cyn y gwrandawiad adolygu.

(5) Bydd yr Hysbysiad Adolygu yn:

(a) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad;

(b) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am amser a lleoliad y gwrandawiad;

(c) gofyn i'r unigolyn cofrestredig hysbysu'r Pwyllgor a yw'r unigolyn cofrestredig yn dymuno i'r achos gael ei wrando'n breifat neu'n gyhoeddus;

(d) pan fo'r Pwyllgor wedi gofyn am adolygiad o'r Gorchymyn Interim, at ddibenion gosod Gorchymyn Interim pellach, darparu datganiad cryno i'r unigolyn cofrestredig o'r materion yr ymddengys eu bod yn codi'r cwestiwn:

(i) a ddylid atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig am gyfnod pellach neu a ddylai fod yn ddarostyngedig i amodau am gyfnod pellach; a

(ii) pam y mae angen gweithredu felly er mwyn diogelu unigolynau'r cyhoedd neu pam y mae fel arall er budd y cyhoedd neu er budd yr unigolyn cofrestredig;

(e) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am ei hawliau i roi tystiolaeth ei hun, i alw tystion ac i groesholi unrhyw dystion a elwir gan y Cyngor;

(f) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am yr hawl i wneud cyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor ei hun neu i gael ei gynrychioli gan:

(i) cyfreithiwr; neu
(ii) bargyfreithiwr; neu
(iii) cynrychiolydd o Undeb Llafur yr unigolyn cofrestredig; neu
(iv) cynrychiolydd o Gorff Proffesiynol yr unigolyn cofrestredig; neu
(v) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, gynrychiolydd o gorff myfyrwyr

(g) hysbysu'r unigolyn cofrestredig y caiff y Pwyllgor, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff (f) uchod;

(h) hysbysu'r unigolyn cofrestredig fod yn rhaid anfon unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff (f) uchod at y Clerc o leiaf 48 awr cyn i'r Pwyllgor gyfarfod;

(i) yn gofyn am gadarnhad ynghylch a yw'r unigolyn cofrestredig yn bwriadu:
(i) dod i'r gwrandawiad;
(ii) cael ei gynrychioli yn y cyfarfod;

(j) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig nad oes hawl gan unigolyn sy'n bwriadu dod i gyfarfod o'r Pwyllgor i gynrychioli neu fod gyda'r unigolyn cofrestredig ac sydd hefyd yn mynd i roi tystiolaeth, i fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes y bydd wedi rhoi'r dystiolaeth honno, heb ganiatâd y Pwyllgor.

(6) Bydd y weithdrefn yn y gwrandawiad adolygu yr un fath ag yn y gwrandawiad gwreiddiol.

(7) Ar ôl adolygu Gorchymyn Interim o dan baragraff (1) caiff y Pwyllgor:

(a) parhau â'r Gorchymyn Interim;
(b) dirymu'r Gorchymyn Interim;
(c) gwneud Gorchymyn Interim pellach, i gychwyn pan ddaw'r Gorchymyn presennol i ben;

a chaiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei drin fel penderfyniad gan y Cyngor.

(8) O fewn saith diwrnod i ddiwedd y gwrandawiad adolygu, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);
(e) os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol;

(9) Caiff y Cyngor hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(10) Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn cynnwys y materion a nodir ym mharagraff 9(11) uchod.

## Nodiadau a thrawsgrifiad o'r achos

13. (1) Caiff yr achos gerbron y Pwyllgor ei recordio.

(2) Ar gais, bydd y Cyngor yn anfon trawsgrifiad o unrhyw ran o'r achos pan fu'r unigolyn cofrestredig yn bresennol at yr unigolyn cofrestredig.

## Newid y Gofrestr

14. (1) Pan fo adolygiad o Orchymyn Interim wedi'i gynnal, a phan fo penderfyniad i barhau â Gorchymyn, dirymu Gorchymyn neu wneud Gorchymyn pellach wedi'i wneud, bydd y Cyngor yn newid y Gofrestr yn unol â hynny.

## ATODLEN 2

## GWEITHDREFN Y PWYLLGOR YMDDYGIAD A'R PWYLLGOR IECHYD

### TREFN Y PARAGRAFFAU


1. Dehongliad
2. Adolygiad cyn Gwrandawiad
3. Cyplysiad
4. Hysbysiad o Wrandawiad
5. Gohirio Dyddiad Gwrandawiad
6. Datgelu'r Achos a Chyflwyno Dogfennau
7. Gweithdrefn yn y Gwrandawiad
8. Gwrandawiadau Cyhoeddus a Phreifat
9. Cynrychiolaeth a Hawl i Gael Gwrandawiad
10. Tystiolaeth
11. Baich a Safon y Prawf
12. Gohirio'r Gwrandawiad Ar ei Ganol

    Cam 1 – Materion Rhagarweiniol – Canfyddiadau Ffeithiol
13. Presenoldeb yn y Gwrandawiad
14. Ffitrwydd i Bledio
15. Cyflwyno'r Pwyllgor a Darllen y Cyhuddiad(au)
16. Newid y Cyhuddiad(au)
17. Addefiadau
18. Tystion
19. Tystion Bregus
20. Tystiolaeth yr Unigolyn Cofrestredig
21. Canfyddiad Ffeithiau
22. Cam 2 - Camymddwyn
23. Cam 3 - Lliniaru
24. Cosbau
25. Hysbysiad o Benderfyniad
26. Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos
27. Darpariaethau pellach i'r Pwyllgor Iechyd
28. Newid y Gofrestr
29. Cyhoeddi Penderfyniadau

30. Adolygu Canfyddiadau o Gamymddygiad
31. Newid y Gofrestr
32. Ceisiadau i newid neu ddirymu un o amodau Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal
33. Newid y Gofrestr
34. Cydymffurfio ag amod(au) mewn Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal
35. Newid y Gofrestr

## Dehongliad

1. (1) Yn yr Atodlen hon, oni nodir fel arall, ystyr "y Pwyllgor" yw'r Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd.

## Adolygiad cyn Gwrandawiad

2. (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad cyn gwrandawiad ac yn gwahodd y partïon i fod yn bresennol. Caiff y Cyngor a'r unigolyn cofrestredig fod yn bresennol yn yr adolygiad cyn gwrandawiad ynghyd ag unrhyw gynrychiolwyr a fo'n gweithredu ar eu rhan.

(2) Bydd y Cyngor yn awdurdodi Cynghorydd Cyfreithiol i gynnal yr adolygiad cyn gwrandawiad, ac ni chaiff unigolynau'r Pwyllgor fynd i'r adolygiad cyn gwrandawiad.

(3) Gellir cynnal yr adolygiad cyn gwrandawiad drwy gynhadledd ffôn neu drwy'r cyfryw ddull ag a benderfynir gan y Cynghorydd Cyfreithiol ar ôl ymgynghori â'r partïon.

(4) Bydd y Clerc yn cadw cofnod o'r cyfarwyddiadau a roddir gan y Cynghorydd Cyfreithiol, yn ogystal ag unrhyw addefiadau a'r penderfyniadau a wneir yn yr adolygiad cyn gwrandawiad.

(5) Caiff yr unigolyn cofrestredig fod yn bresennol a/neu gael ei gynrychioli gan y rhai a restrir ym mharagraff 9 isod.

(6) Ystyrir y materion canlynol yn yr adolygiad cyn gwrandawiad:

(a) y cyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig, a baratowyd gan y Cyngor ac a anfonwyd at y Cynghorydd Cyfreithiol a'r partïon cyn yr adolygiad cyn gwrandawiad;
(b) unrhyw addefiadau o ffeithiau;
(c) a yw'r unigolyn cofrestredig yn dymuno cyfaddef camymddygiad;
(d) enwau'r tystion a elwir (os oes rhai);
(e) a ddylid darparu'n benodol ar gyfer tystion bregus yn y gwrandawiad;
(f) a fwriedir dangos tystiolaeth arbenigwr;
(g) a godir iechyd yr unigolyn cofrestredig fel mater yn yr achos, ac os felly, a ddylid cael adroddiad gan ymarferydd meddygol;
(h) unrhyw ddyddiadau pryd y byddai'r unigolyn cofrestredig neu dystion yn methu bod yn bresennol mewn gwrandawiad;
(i) amcangyfrif amser ar gyfer y gwrandawiad.

(7) Caiff y Cynghorydd Cyfreithiol roi cyfarwyddiadau i'r partïon er mwyn hwyluso gwrando'r mater ac ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau meddygol ac arbenigol, a'r Datganiad Ffeithiau (os oes un) a bydd y partïon yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny.

(8) Caiff y Cynghorydd Cyfreithiol roi barn ragarweiniol i'r partïon er mwyn datrys cwestiynau cyfreithiol neu dderbynioldeb tystiolaeth.

(9) Gwneir y penderfyniad parthed a dderbynnir tystiolaeth ai peidio yn y gwrandawiad gan y Pwyllgor yn y gwrandawiad.

(10) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn dymuno addef naill ai ffeithiau'r cyhuddiad a'r cwestiwn o gamymddygiad, neu ffeithiau'r cyhuddiad yn unig, bydd y Cynghorydd Cyfreithiol yn cyfarwyddo'r partïon i baratoi Datganiad Ffeithiau y cytunwyd arno o fewn terfyn amser penodedig.

## Cyplysiad

3. (1) Pan fo cyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig wedi'i gyfeirio (wedi'u cyfeirio) at y Pwyllgor a bod cwyn neu gwynion newydd yn cael ei chyfeirio neu eu cyfeirio wedyn at y Pwyllgor, gellir diwygio'r cyhuddiad(au) yng ngoleuni'r gŵyn neu'r cwynion newydd, yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg.

## Hysbysiad o Wrandawiad

4. (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cynnal yr adolygiad cyn gwrandawiad, ac eithrio pan fo'r mater wedi ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Ymchwilio yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 1, bydd y Clerc yn anfon at yr unigolyn cofrestredig, y Cyngor, yr Achwynydd, cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai) neu, pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol, Hysbysiad o Wrandawiad a fydd yn:

(a) nodi dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) nodi'r cyhuddiad yn erbyn yr unigolyn cofrestredig y gall y Cyngor ei ddiwygio yn dilyn yr adolygiad cyn gwrandawiad;

(c) datgan a fydd yr achos yn mynd ymlaen i'r Pwyllgor Ymddygiad ynteu'r Pwyllgor Iechyd;

(d) hysbysu'r partïon am eu priod hawliau:

(i) i fod yn bresennol yn y gwrandawiad;
(ii) i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor;
(iii) i wneud cyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd fel y'i nodir ym mharagraff 10 isod;
(iv) i alw a chroesholi tystion;

(e) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y cosbau posibl y gall y Pwyllgor eu rhoi os canfyddir camymddygiad;

(f) hysbysu'r unigolyn cofrestredig am hawl y Pwyllgor i fynd yn ei flaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad;

(g) gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn bresennol yn y gwrandawiad.

(2) Ni threfnir y gwrandawiad ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynharach nag 28 diwrnod wedi postio'r Hysbysiad o Wrandawiad ac eithrio gyda chytundeb yr unigolyn cofrestredig.

## Gohirio Dyddiad y Gwrandawiad

5. (1) Pan ddymuna'r naill barti neu'r llall i ddyddiad y gwrandawiad gael ei ohirio, rhaid gwneud y cyfryw gais yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor.

(2) Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cyfryw gais gyflwyno copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

(3) Caiff y parti y cyflwynir y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor.

(4) Ystyrir y cais gan Gadeirydd y Pwyllgor, a fydd yn penderfynu ar y cais, gan ystyried:

(a) cyflwyniadau'r ddau barti;
(b) unrhyw ragfarn debygol i'r naill Barti neu'r llall;
(c) budd y cyhoedd mewn penderfynu ar yr achos yn fuan.

(5) Os caniateir y cais i ohirio'r dyddiad, neu fod rhaid ad-drefnu'r mater am ryw reswm arall, bydd y Clerc yn hysbysu'r partïon a'r achwynydd am y dyddiad newydd ar gyfer y gwrandawiad cyn gynted ag y bo modd.

## Datgelu'r Achos a Chyflwyno Dogfennau

6. (1) O leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad, rhaid i'r partïon gyflwyno i'w gilydd, a chyflwyno i ofal Clerc y Pwyllgor, gopïau o bob dogfen ac adroddiad y bwriadant ddibynnu arnynt.

(2) Rhaid i'r partïon wneud trefniadau i ddogfennau gwreiddiol gael eu harchwilio o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad.

(3) Pan dderbynnir dogfennau ac adroddiadau (os oes rhai) yr unigolyn cofrestredig, bydd y Cyflwynydd yn ystyried a oes unrhyw ddogfennau pellach ym meddiant y Cyngor a all fod o gymorth i'r unigolyn cofrestredig, a bydd yn cyflwyno copïau o'r cyfryw ddogfennau (os oes rhai) i'r unigolyn cofrestredig ac i ofal y Clerc.

(4) O leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon copïau i'r Pwyllgor o:

(a) yr Hysbysiad o Wrandawiad;
(b) unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gan y partïon yn unol â pharagraffau (1) a (3) uchod.

## Gweithdrefn yn y Gwrandawiad

7. (1) Yn amodol ar y Rheolau hyn, a gofynion gwrandawiad teg, caiff y Pwyllgor benderfynu ei weithdrefnau ei hun yn gyffredinol a chaiff roi cyfarwyddiadau ar gyfer penderfynu'r achos yn gyflawn ac yn brydlon.

(2) Os ymddengys i'r Pwyllgor Ymddygiad ar unrhyw bryd yn ystod y gwrandawiad fod afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig wedi achosi'r camymddygiad honedig (os yw'n wir) neu wedi cyfrannu'n sylweddol ato, caiff y Pwyllgor roi'r gorau i ystyried yr honiad a chaiff gyfeirio'r mater i'w ystyried gan y Pwyllgor Iechyd. Os bydd angen, caiff y Pwyllgor ohirio gwrandawiad ar ei ganol er mwyn gallu cael adroddiadau arbenigol cychwynnol neu bellach.

(3) Cynhelir y gwrandawiad mewn tri cham fel a ganlyn:

(a) materion rhagarweiniol a chanfyddiadau ffeithiol;
(b) canfyddiad o gamymddygiad;
(c) lliniari a chosb.

## Gwrandawiadau Cyhoeddus a Phreifat

8. (1) Yn amodol ar baragraffau (2), (4) a (5) isod, cynhelir y gwrandawiad yng ngŵydd y partïon ac fe'i cynhelir yn gyhoeddus.

(2) Caiff y Pwyllgor, o'i wirfodd neu ar gais tyst neu unrhyw un o'r partïon, benderfynu y dylai unigolion nad ydynt yn gysylltiedig â'r gwrandawiad ymneilltuo o'r gwrandawiad cyfan neu unrhyw ran ohono, ar yr amod bob amser:

(a) na fydd penderfyniad i gau'r cyhoedd allan yn peri unrhyw ragfarn i'r naill barti na'r llall;
(b) fod amgylchiadau arbennig yr achos yn drech na'r budd cyhoeddus o gynnal gwrandawiad cyhoeddus;
(c) y gwneir y penderfyniad ar ôl gwrando ar sylwadau gan y naill barti a'r llall.

(3) Yn y paragraff hwn, nid yw rhywun yn gysylltiedig â'r gwrandawiad os nad yw:

(a) yn unigolyn o'r Pwyllgor;
(b) yn Gynghorydd Cyfreithiol neu'n Gynghorydd Meddygol i'r Pwyllgor;
(c) yn Glerc y Pwyllgor;
(d) yn barti neu'n gynrychiolydd i'r parti hwnnw;
(e) yn dyst;
(f) yn ysgrifennwr llaw-fer;
(g) yn dechnegydd sain;
(h) yn gyfieithydd;
(i) yn gyfieithydd ar y pryd.

(4) Bydd y Pwyllgor Iechyd yn cynnal ei weithrediadau yn breifat, yng ngŵydd y partïon.

(5) Er mwyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r gwrandawiad, bydd y Pwyllgor yn eistedd yn breifat. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi unrhyw benderfyniad yn gyhoeddus.

## Cynrychiolaeth a Hawl i Gael Gwrandawiad

9. (1) Bydd gan y Cyflwynydd a'r unigolyn cofrestredig hawl i gael gwrandawiad gan y Pwyllgor

(2) Caiff yr unigolyn cofrestredig ei gynrychioli gan:

(a) bargyfreithiwr; neu
(b) cyfreithiwr; neu
(c) cynrychiolydd o Undeb Llafur yr unigolyn cofrestredig; neu
(d) cynrychiolydd o Gorff Proffesiynol yr unigolyn cofrestredig
(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, cynrychiolydd o gorff myfyrwyr.

(3) Caiff y Pwyllgor, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r rhai a restrir ym mharagraff (2) uchod. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig wneud cais i'r Clerc o leiaf 48 awr cyn cyfarfod y Pwyllgor i gael ei gynrychioli gan unigolyn o'r fath.

(4) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn gweithredu drosto'i hun, gall yr unigolyn cofrestredig gael rhyw gynrychiolydd arall yn gwmni iddo ac i'w gynghori. Ni fydd gan y cyfryw gynrychiolydd, fodd bynnag, hawl i annerch y Pwyllgor, heb ganiatâd.

(5) Ni fydd hawl gan unigolyn sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor i gynrychioli neu fod gyda'r unigolyn cofrestredig ac sydd hefyd yn mynd i gael ei alw fel tyst i fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes y bydd wedi rhoi'r dystiolaeth honno, heb ganiatâd y Pwyllgor.

(6) Caiff y Pwyllgor gau allan o'r gwrandawiad cyfan, neu ran ohono, unrhyw un y mae ei ymddygiad, ym marn y Pwyllgor, wedi tarfu ar y gwrandawiad neu'n debygol o darfu arno.

(7) Caiff yr achwynydd fod yn bresennol yn y gwrandawiad a gall unrhyw barti, neu'r Pwyllgor, o'i gynnig ei hun, alw arno i roi tystiolaeth.

(8) Pan fwriedir i'r achwynydd roi tystiolaeth, ni fydd gan yr achwynydd hawl i fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes y bydd wedi rhoi'r cyfryw dystiolaeth honno.

(9) Yn amodol ar baragraff 20, pan fo'r achwynydd wedi'i alw i roi tystiolaeth gan y Pwyllgor, caiff y partïon gyfle i holi'r achwynydd.

## Tystiolaeth

10. (1) Yn amodol ar gyngor y Cynghorydd Cyfreithiol, gofynion gwrandawiad teg, a pherthnasedd, caiff y Pwyllgor:

(a) derbyn tystiolaeth boed honno'n dderbyniol mewn Llys Barn ai peidio;
(b) gwrthod derbyn tystiolaeth er mwyn sicrhau tegwch i'r unigolyn cofrestredig a rhwng y partïon.

(2) Caiff y Pwyllgor dderbyn tystiolaeth lafar, tystiolaeth ddogfennol neu fath arall o dystiolaeth yr ymddengys y byddai'n berthnasol wrth iddo ystyried yr achos.

(3) Caiff y Pwyllgor o'i wirfodd ofyn i'r partïon ddarparu dogfennau neu unrhyw dystiolaeth arall neu ofyn i unrhyw un roi tystiolaeth lafar a allai yn ei farn ef ei gynorthwyo i benderfynu ar yr honiad yn erbyn yr unigolyn cofrestredig.

(4) Caiff y Pwyllgor dderbyn tystiolaeth a ddangosir gan barti er nad yw'r cyfryw dystiolaeth wedi'i datgelu i'r ochr arall cyn y gwrandawiad:

(a) os cydsynia'r partïon; neu
(b) ar ôl ymgynghori â'r Cynghorydd Cyfreithiol, pan fo'n fodlon:
(i) bod angen derbyn y cyfryw dystiolaeth i sicrhau tegwch yr achos a bod hynny'n drech nag unrhyw ragfarn i'r parti na welodd y cyfryw dystiolaeth o'r blaen; a
(ii) bod rheswm da pam na ddatgelwyd y cyfryw dystiolaeth ynghynt.

(5) Bydd canfyddiadau ffeithiol ac ardystiad o gollfarn unrhyw Lys Troseddol neu Sifil yn y Deyrnas Unedig yn brawf pendant o'r ffeithiau neu'r gollfarn a ganfuwyd felly.

(6) Caiff y Pwyllgor dderbyn dyfarniad corff rheoleiddio a nodir yn Atodlen 4 neu benderfyniad yr Awdurdod Diogelu Annibynnol neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal) neu'r Uwch Dribiwnlys (Apeliadau Gweinyddol) mewn achos yn erbyn unigolyn cofrestredig, fel tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o unrhyw ffeithiau y canfuwyd eu bod wedi'u profi gan y corff hwnnw.

(7) Er gwaethaf paragraff (6), bydd hawl gan yr unigolyn cofrestredig i ddangos tystiolaeth i'r Pwyllgor i wrthbrofi unrhyw ganfyddiadau a wnaed gan gorff rheoleiddio a nodir yn Atodlen 4 neu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal) neu'r Uwch Dribiwnlys (Apeliadau Gweinyddol).

## Baich a Safon y Prawf

11. (1) Bydd baich y prawf i brofi'r ffeithiau ar y Cyngor.

(2) Pan fo anghydfod ynglŷn â'r ffeithiau, y Pwyllgor fydd yn penderfynu ar y ffeithiau ar sail y safon sifil, yn ôl pwysau tebygolrwydd.

## Gohirio'r Gwrandawiad Ar ei Ganol

12. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, ac wedi gwrando ar gyflwyniadau gan y partïon, caiff y Pwyllgor, ar unrhyw adeg yn y gwrandawiad, ohirio'r achos er mwyn ceisio gwybodaeth bellach neu at unrhyw ddiben arall.

(2) Pan ohiriwyd gwrandawiad, bydd y Clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r partïon, yr achwynydd a'r cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai) a phan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol, am y dyddiad a bennwyd ar gyfer ailddechrau'r gwrandawiad.

## Cam 1 – Materion Rhagarweiniol a Chanfyddiadau Ffeithiol

### Presenoldeb yn y Gwrandawiad

13. (1) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn methu â bod yn bresennol ac nad yw wedi'i gynrychioli yn y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn:

(a) mynnu tystiolaeth i'r Hysbysiad o Wrandawiad gael ei gyflwyno i'r unigolyn cofrestredig yn unol â'r Rheolau hyn, ac i ymdrechion rhesymol gael eu gwneud i hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y gwrandawiad; a

(b) holi a roddwyd unrhyw resymau am absenoldeb yr unigolyn cofrestredig i'r Clerc neu i'r Cyngor.

(2) Pan fo'r Pwyllgor yn fodlon i'r Hysbysiad gael ei gyflwyno'n briodol i'r unigolyn cofrestredig, caiff:

(a) gwrando a phenderfynu ar yr achos yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig; neu

(b) gohirio'r gwrandawiad a rhoi cyfarwyddiadau.

### Ffitrwydd i Bledio

14. (1) Pan fo cwestiwn ynghylch ffitrwydd yr unigolyn cofrestredig i bledio yn codi, bydd y Pwyllgor yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Iechyd.

(2) Wedyn bydd y Pwyllgor Iechyd yn ystyried:

(a) a all yr unigolyn cofrestredig ddeall y materion yn yr achos;

(b) a all yr unigolyn cofrestredig ddirnad effaith unrhyw gyngor a geir oddi wrth gynrychiolwyr yr unigolyn cofrestredig (os oes rhai);

(c) a all yr unigolyn cofrestredig roi cyfarwyddiadau yn unol â hynny.

(3) Bydd y Pwyllgor Iechyd yn derbyn tystiolaeth a chyflwyniadau arbenigol ar y materion hyn.

(4) Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu nad yw'r unigolyn cofrestredig yn ffit i bledio, gwna orchymyn i atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig ar y Gofrestr, hyd y cyfryw adeg ag y bo'r unigolyn cofrestredig yn ffit i bledio.

### Cyflwyno'r Pwyllgor a Darllen y Cyhuddiad(au)

15. (1) Wrth agor y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno unigolynau'r Pwyllgor a'r partïon.

(2) Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig gadarnhau enw a rhif cofrestru'r unigolyn cofrestredig.

(3) Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gais o dan Reol 8(2) y dylai unrhyw rai nad ydynt yn gysylltiedig â'r gwrandawiad ymneilltuo o'r gwrandawiad cyfan neu unrhyw ran ohono.

(4) Wedyn bydd y Clerc yn darllen yn uchel y cyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig.

## Newid y Cyhuddiad(au)

16. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, caiff y Pwyllgor newid y cyhuddiad(au) ar unrhyw gam cyn canfod camymddygiad.

(2) Bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn gwrando ar sylwadau gan y partïon, ac yn cymryd cyngor gan y Cynghorydd Cyfreithiol, cyn penderfynu a ddylid newid y cyhuddiad(au) ai peidio.

## Addefiadau

17. (1) Wedi i'r cyhuddiad(au) gael ei ddarllen (eu darllen), bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig a addefir unrhyw ffeithiau (neu gollfarnau) a honnir yn y cyhuddiad, ac a yw'r unigolyn cofrestredig yn cyfaddef camymddygiad.

(2) Pan addefir unrhyw ffeithiau (neu gollfarnau), bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi i'r Pwyllgor ganfod bod y cyfryw ffeithiau (neu gollfarnau) wedi eu profi.

(3) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn addef y ffeithiau a honnir, neu'r ffeithiau a'r camymddygiad, bydd y Cyflwynydd yn darllen yn uchel y Datganiad Ffeithiau y cytunwyd arno.

(4) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn addef y ffeithiau ond yn gwadu camymddygiad, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi canfyddiad ar y ffeithiau ac yn penderfynu ar fater camymddygiad yn unol â cham 2.

(5) Pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi addef camymddygiad, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canfyddiad camymddygiad yn erbyn yr unigolyn cofrestredig, a bydd y Pwyllgor yn mynd yn ei flaen i benderfynu ar fater y gosb yn unol â cham 3.

(6) Pan na wneir dim addefiadau, neu pan fo anghydfod o hyd ynghylch rhai ffeithiau, bydd y Cyflwynydd yn cyflwyno'r achos yn erbyn yr unigolyn cofrestredig i'r Pwyllgor ac yn dangos tystiolaeth i gefnogi'r ffeithiau hynny nas addefir.

## Tystion

18. (1) Bydd yn ofynnol i dystion dyngu llw neu ddwyshaeru.

(2) Caiff y Pwyllgor, ar gais y parti sy'n galw'r tyst, gytuno na ddylid datgelu manylion personol y tyst yn gyhoeddus.

(3) Yn amodol ar baragraff 20, caiff tystion eu holi gan y parti sy'n eu galw ac wedyn gall y parti arall eu croesholi. Wedyn caiff y parti a alwodd y tyst ail-holi'r tyst.

(4) Wedyn caiff tystion eu holi gan y Pwyllgor, neu gan y Cynghorydd Cyfreithiol, gyda chaniatâd y Cadeirydd.

(5) Wedyn caiff y partïon holi'r tystion ar faterion yn codi o gwestiynau'r Pwyllgor. Y parti a alwodd y tystion fydd yn holi'r tystion olaf.

(6) Bydd unrhyw holi pellach ar dystion yn fater i ddisgresiwn y Pwyllgor.

(7) Ni chaniateir i dystion fod yn bresennol mewn achos na'i wylio hyd nes y byddant wedi cwblhau rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac wedi'u rhyddhau'n ffurfiol gan y Cadeirydd.

## Tystion Bregus

19 (1) Trinnir y canlynol fel tystion bregus:

(a) unrhyw dyst o dan 17 mlwydd oed;
(b) unrhyw dyst ag anhwylder meddyliol;
(c) unrhyw dyst sydd â nam arwyddocaol o ran deallusrwydd a gweithredu cymdeithasol;
(d) unrhyw dyst ag anableddau corfforol sydd angen cymorth i roi tystiolaeth;
(e) yr achwynydd a/neu unrhyw unigolyn a oedd yn destun ymddygiad honedig yr unigolyn cofrestredig, pan fo'r cyhuddiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig o natur rywiol;
(f) unrhyw dystion sy'n cwyno iddynt gael eu bygylu.

(2) Yn amodol ar gyngor y Cynghorydd Cyfreithiol, ac wedi gwrando ar sylwadau gan y partïon, caiff y Pwyllgor fabwysiadu'r cyfryw fesurau ag a fo'n angenrheidiol yn ei farn ef i'w alluogi i dderbyn tystiolaeth oddi wrth dystion bregus.

(3) Caiff mesurau a fabwysiedir gan y Pwyllgor gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) defnyddio cysylltiadau fideo;
(b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw fel tystiolaeth tyst;
(c) defnyddio sgriniau;
(d) defnyddio dehonglwyr (yn cynnwys cyfieithwyr a chyfieithwyr iaith arwyddion) neu ganolwyr.

(4) Pan fo'r cyhuddiad(au) yn erbyn unigolyn cofrestredig o natur rywiol ac mai'r achwynydd yw'r dioddefwr honedig, a phan fo'r unigolyn cofrestredig yn gweithredu drosto'i hun, ni chaniateir i'r unigolyn cofrestredig groesholi'r achwynydd. Y Cynghorydd Cyfreithiol fydd yn holi'r achwynydd o dan yr amgylchiadau hyn.

## Tystiolaeth yr Unigolyn Cofrestredig

20. (1) Ar ddiwedd y dystiolaeth a gyflwynir gan y Cyflwynydd, caiff yr unigolyn cofrestredig ddangos tystiolaeth a thystion i gefnogi'r achos.

## Canfyddiad Ffeithiau

21. (1) Bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried yn breifat a brofwyd y ffeithiau yn y cyhuddiad(au) yn ôl pwysau tebygolrwydd.

(2) Bydd y Cadeirydd wedyn yn cyhoeddi gerbron y partïon, ganfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor. Os canfyddir na phrofwyd unrhyw ffeithiau, gwrthodir yr achos.

(3) Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor roi rhesymau dros ei ganfyddiadau ffeithiol.

## Cam 2 – Camymddygiad

22. (1) Pan fo'r Pwyllgor wedi canfod bod rhai neu'r cyfan o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig a yw, ar sail y ffeithiau y canfuwyd eu bod wedi'u profi, yn cyfaddef camymddygiad.

(2) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn cyfaddef camymddygiad, bydd y Pwyllgor wedyn yn mynd yn ei flaen i benderfynu ar fater y gosb yn unol â cham 3.

(3) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn gwadu camymddygiad, bydd y partïon yn cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a gallant ddangos tystiolaeth mewn perthynas â chamymddygiad.

(4) Wrth benderfynu ar fater camymddygiad, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw God Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan y Cyngor o dan Adran 62 o'r Ddeddf a oedd mewn grym ar yr adeg y bu i'r camymddygiad honedig ddigwydd.

(5) Bydd y Pwyllgor yn ystyried yn breifat a yw'r unigolyn cofrestredig, ar sail y ffeithiau y canfuwyd eu bod wedi'u profi, wedi cyflawni camymddygiad, a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiad ar fater camymddygiad gerbron y partïon.

(6) Bydd y Pwyllgor yn rhoi rhesymau dros ei ganfyddiad ar fater camymddygiad.

(7) Os canfyddir nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi cyflawni camymddygiad, gwrthodir yr achos a daw'r gwrandawiad i ben. Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny caiff y Pwyllgor atgoffa'r unigolyn cofrestredig o delerau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, a hysbysu'r unigolyn cofrestredig y bydd cofnod o'r nodyn atgoffa hwnnw a'r rhesymau drosto yn cael ei gadw gan y Cyngor.

## Cam 3 – Lliniari

23. (1) Pan fo'r Pwyllgor yn canfod bod yr unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Cyflwynydd ddarparu manylion i'r Pwyllgor am hanes blaenorol yr unigolyn cofrestredig gyda'r Cyngor (os oes un).

(2) Wedyn bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r cosbau sydd ar gael i'r Pwyllgor eu rhoi ac yn gwahodd sylwadau gan yr unigolyn cofrestredig ynglŷn â'r gosb y dylid ei rhoi.

(3) Pan fo'r Pwyllgor o'r farn y caiff y canfyddiad o gamymddygiad deilyngu dynnu enw oddi ar y Gofrestr neu atal oddi ar y Gofrestr, bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y farn gychwynnol hon, ac yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i wneud sylwadau penodol ar y cosbau hyn.

(4) Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu y dylid gosod Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal gydag amod(au), bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r amod(au) sydd i'w gynnwys (i'w cynnwys) yn y Gorchymyn hwnnw ac yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig (pan fo'n bresennol) a'r Cyflwynydd i wneud sylwadau ar eiriad y amod(au) arfaethedig a gallu'r unigolyn cofrestredig i gydymffurfio, cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar eiriad terfynol yr amod(au).

(5) Wedyn caiff yr unigolyn cofrestredig annerch y Pwyllgor er lliniaru'r gosb a chaiff ddangos geirda a thystlythyron, a chaiff alw ar dystion cymeriad i'w gefnogi.

(6) Pan elwir tystion cymeriad, caiff y Cyflwynydd a'r Pwyllgor eu holi.

(7) Pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi dewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, caiff yr unigolyn cofrestredig roi manylion er lliniaru yn ysgrifenedig, ymlaen llaw, i'r Clerc. Bydd y Clerc yn darparu'r cyfryw ddogfennau lliniaru i'r Pwyllgor bryd hynny.

(8) Wedi gwrando ar yr unigolyn cofrestredig, bydd y Pwyllgor yn penderfynu, yn breifat, pa gosb y dylai ei rhoi.

## Cosbau

24. (1) Pan ganfyddir camymddygiad, caiff y Pwyllgor:

(a) dod â'r achos i ben heb roi cost (os felly caiff y Pwyllgor; (i) atgoffa'r unigolyn cofrestredig o delerau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol); neu

(b) ceryddu'r unigolyn cofrestredig a chyfarwyddo y dylid gosod cofnod o'r cerydd ar gofnod yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr am hyd at bum mlynedd; neu

(c) gwneud Gorchymyn Amodau Ymarfer; neu

(d) gwneud gorchymyn yn atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd ('Gorchymyn Atal') gydag amodau neu heb amodau; neu

(e) gwneud gorchmyn i ddileu cofrestriad yr unigolyn cofrestredig ar y Gofrestr ('Gorchymyn Dileu'); neu

(f) dirymu unrhyw Orchymyn Interim a wnaed gan y Pwyllgor Ymchwilio,

a hysbysu'r unigolyn cofrestredig y bydd manylion am y gosb yn cael eu cadw ar gofnodion y Cyngor ac y cânt eu hystyried yng ngweithrediadau'r Cyngor yn y dyfodol.

(2) Wrth benderfynu pa gosb i'w rhoi, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

(a) difrifoldeb camymddygiad yr unigolyn cofrestredig;
(b) diogelu'r cyhoedd;
(c) budd y cyhoedd mewn cynnal hyder mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol; a
(d) cymesuredd.

(3) Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei benderfyniad ar gosbau yn gyhoeddus, gan roi rhesymau dros ei benderfyniad.

## Hysbysiad o Benderfyniad

25. (1) O fewn saith diwrnod wedi diwedd y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai);
(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol.

(2) Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn:

(a) cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y Cynghorydd Cyfreithiol a'r Cynghorydd Meddygol;

(b) amlinellu canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, a'i benderfyniadau ar gamymddygiad a'r gosb;

(c) manylu ar y rhesymau dros benderfyniadau'r Pwyllgor;

(d) pan fo unigolyn cofrestredig wedi cael cerydd, nodi cyfnod y cerydd;

(e) pan fo Gorchymyn Atal wedi'i wneud gydag amodau neu heb amodau, nodi'r cyfnod atal a manylion unrhyw amodau a osodwyd;

(f) pan wnaed Gorchymyn Amodau Ymarfer, nodi cyfnod y Gorchymyn a manylion yr amodau a osodwyd;

(g) hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal);

(h) hysbysu'r unigolyn cofrestredig i unrhyw gosb a roddwyd gan y Pwyllgor ddod i rym ar y diwrnod y daith y gwrandawiad i ben.

(3) Caiff y Cyngor hysbysu:
(i) Llywodraeth Cynulliad Cymru;
(ii) yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

## Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos

26. (1) Penodir person gan y Cyngor i gymryd nodiadau gair am air a/neu gwneir trefniadau i recordio'r achos gerbron y Pwyllgor.

(2) Yn unol â'u cais, bydd y Cyngor yn anfon trawsgript at yr unigolyn cofrestredig a'r achwynydd o'r nodyn gair am air neu'r recordiad, o unrhyw ran o'r achos pan fu gan yr unigolyn cofrestredig neu, yn ôl fel y bo, yr achwynydd hawl i fod yn bresennol.

## Darpariaethau pellach i'r Pwyllgor Iechyd

27. (1) Yn amodol ar baragraff (2) isod, wrth benderfynu a yw'r unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn ar gam 2, ac wrth benderfynu ar fater y gosb ar gam 3, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw adroddiadau meddygol neu dystiolaeth feddygol arall ynghylch a oedd afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig wedi achosi'r camymddygiad honedig, neu wedi cyfrannu'n sylweddol ato.

(2) Ni fydd y Pwyllgor yn derbyn unrhyw adroddiadau meddygol na thystiolaeth feddygol arall oni bai bod yr unigolyn cofrestredig wedi cydsynio i gael ei archwilio ac i ganiatáu i'r cyfryw adroddiadau gael eu darparu i'r Pwyllgor.

(3) Wrth benderfynu ar fater camymddygiad, caiff y Pwyllgor ystyried penderfyniad unigolyn cofrestredig i wrthod cael ei archwilio neu i gydsynio i adroddiadau ynghylch ffitrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer gael eu darparu i'r Pwyllgor.

(4) Os bydd angen, caiff y Pwyllgor ohirio er mwyn cael adroddiadau arbenigol cychwynnol neu bellach.

(5) Os ymddengys i'r Pwyllgor ar unrhyw bryd yn ystod y gwrandawiad, ar ôl derbyn cyngor gan y Cynghorydd Meddygol, nad yw afiechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn cofrestredig wedi achosi'r camymddygiad honedig nac wedi cyfrannu'n sylweddol ato, caiff y Pwyllgor Iechyd roi'r gorau i ystyried yr honiad a chyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Ymddygiad.

## Newid y Gofrestr

28 (1) Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu fod unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn, bydd y Cyngor yn newid cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr i gofnodi'r gosb a roddwyd, fel y bo'n briodol.

## Cyhoeddi Penderfyniadau

29. (1) Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu bod unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi canfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, a phenderfyniad y Pwyllgor, drwy'r cyfryw fodd ag y bo'n briodol ym marn y Pwyllgor.

(2) Ar ôl penderfyniad y Pwyllgor fod unigolyn cofrestredig wedi camymddwyn, caiff y Cyngor hefyd ddarparu copi o ganfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor, a phenderfyniad y Pwyllgor, i unrhyw rai o'r cyrff rheoleiddio a restrir yn Atodlen 4 ac i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

## Adolygu Canfyddiadau o Gamymddygiad

30. (1) Ar gais parti neu o'i wirfodd ei hun caiff Pwyllgor adolygu canfyddiad o gamymddygiad a dirymu'r gosb a roddwyd:

(a) os mai'r unig reswm neu'r prif reswm dros y canfyddiad oedd bod yr unigolyn cofrestredig wedi cael ei gollfarnu o drosedd ac, ar ôl dyddiad y canfyddiad, bod y gollfarn dan sylw wedi cael ei diddymu; neu

(b) ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, os yw'r Pwyllgor yn cael gafael ar dystiolaeth berthnasol nas ystyriwyd ganddo cyn iddo wneud y canfyddiad neu'r gorchymyn dan sylw a bod y Pwyllgor yn fodlon na fyddai wedi gwneud y gorchymyn pe bai wedi bod yn ymwybodol o'r dystiolaeth ger ei fron.

## Newid y Gofrestr

31. (1) Os penderfyna'r Pwyllgor ddirymu'r canfyddiad o gamymddygiad ar ôl cael cais o dan Reol 30, bydd y Cyngor yn newid cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr yn unol â hynny.

## Ceisiadau i newid neu ddirymu un o amodau Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal a wnaed gan Bwyllgor Ymddygiad neu Bwyllgor Iechyd

32. (1) Caiff unigolyn cofrestredig y gwnaed Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal yn ei gylch wneud cais i'r Cyngor i newid neu ddirymu unrhyw amod a nodwyd yn y Gorchymyn drwy gyflwyno cais ysgrifenedig y mae'n rhaid iddo:

(a) nodi'r amod(au) dan sylw;
(b) nodi a yw'r unigolyn cofrestredig yn ceisio newid neu ddirymu'r amod(au) ac, yn achos newid

telerau'r newid y gwneir cais amdano;

(c) nodi'r sail dros y cais; a

(d) gael ei gyflwyno ar y cyd â phob dogfen y dibynnir arni i ategu'r cais.

(2) Ar ôl cael y cais, bydd y Cyngor yn cyfeirio'r cais at Bwyllgor Ymddygiad lle gwnaed y Gorchymyn gan Bwyllgor Ymddygiad neu at Bwyllgor Iechyd lle gwnaed y Gorchymyn gan Bwyllgor Iechyd a fydd yn cynnwys unigolion nad oeddent yn unigolynau o'r Pwyllgor a wnaeth y Gorchymyn.

(3) Bydd y Clerc yn anfon copi o Hysbysiad o Wrandawiad at unigolyn cofrestredig, y Cyngor, yr achwynydd, cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai), neu, os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, at y Brifysgol, a fydd:

(a) yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) yn nodi a fydd yr achos yn mynd yn ei flaen i'r Pwyllgor Ymddygiad ynteu'r Pwyllgor Iechyd;

(c) yn hysbysu'r partïon am eu hawliau:

(i) i ddod i'r gwrandawiad;
(ii) i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor;
(iii) i wneud cyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd fel a nodir ym mharagraff 10 isod;
(iv) i alw a chroesholi tystion;

(d) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig o'r canlyniadau posibl;

(e) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am bŵer y Pwyllgor i fynd yn ei flaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad;

(f) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig yn bresennol yn y gwrandawiad.

(g) wedi'i atodi i gopi o benderfyniad y Pwyllgor yn y gwrandawiad pan wnaed y Gorchymyn Amodau Ymarfer neu'r Gorchymyn Atal.

(4) O leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon copïau i'r Pwyllgor o'r canlynol:

(a) yr Hysbysiad o Wrandawiad;
(b) unrhyw ddogfen a gyflwynwyd gan yr unigolyn cofrestredig o ran paragraff (1);
(c) unrhyw ddogfen a gyflwynwyd gan y Cyngor mewn ymateb i gais yr unigolyn cofrestredig.

(5) Bydd y weithdrefn yn y gwrandawiad fel a ganlyn:

(a) bydd y Cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos ac amgylchiadau rhoi'r gorchymyn a chaiff ddangos dogfennau, a galw ar dystion.

(b) bydd yr unigolyn cofrestredig wedyn yn cyflwyno sylwadau i nodi pam y dylid dirymu'r gorchymyn neu ei newid, ac, yn achos newid, delerau'r newid y gwneir cais amdano a chaiff ddangos dogfennau, a galw tystion i'w gefnogi.

(6) Oni ddarperir fel arall ym mharagraffau (1) i (5) uchod, bydd y Rheolau canlynol yn Rhan II yn gymwys i'r gwrandawiad, sef Rheol 7 (Unigolynaeth a chworwm y Pwyllgorau), Rheol 8 (pleidleisio), Rheol 9 (Cynghorydd Cyfreithiol), Rheol 10 (Cynghorydd Meddygol), Rheol 11 (Clerc) a'r Rheolau canlynol yn Atodlen 2, Rheol 5 (Gohirio Dyddiad Gwrandawiad), Rheol 7(1) (Gweithdrefn yn y Gwrandawiad), Rheol 8 (Gwrandawiadau Cyhoeddus a Phreifat), Rheol 9 (Cynrychiolaeth a'r hawl i gael gwrandawiad), Rheol 10 (Tystiolaeth), Rheol 12 (Gohirio Gwrandawiad ar ei ganol), Rheol 13 (Presenoldeb yn y gwrandawiad), Rheol 15 (Cyflwyno'r Pwyllgor), Rheol 18 (Tystion), Rheol 19 (Tystion bregus), Rheol 20 (Tystiolaeth yr unigolyn cofrestredig), Rheol 26 (Trawsgrifiad o'r achos), Rheol 29 (Cyhoeddi'r penderfyniad).

(7) Pan fo'r Gorchymyn wedi'i roi gan y Pwyllgor Iechyd, caiff y Pwyllgor Iechyd ofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu adroddiadau meddygol diweddar gan ymarferydd meddygol a enwebir gan y Cyngor, ar gost yr unigolyn cofrestredig ei hun.

(8) Bydd baich y prawf i brofi'r ffeithiau ar yr unigolyn cofrestredig.

(9) Pan fo anghydfod ynglŷn â'r ffeithiau, y Pwyllgor fydd yn penderfynu ar y ffeithiau ar sail y safon sifil, yn ôl pwysau tebygolrwydd.

(10) Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cais yn breifat a bydd yn cyhoeddi ei benderfynu gerbron y partïon.

(11) Wrth ystyried y cais, caiff y Pwyllgor:

(a) gwrthod y cais am ddirymu neu newid gorchymyn;
(b) cymeradwyo'r cais am ddirymu neu newid gorchymyn;
(c) yn achos cais am ddirymu amodau, newid telerau amod yn lle dirymu; neu
(d) yn achos cais am newid amodau, newid telerau amod mewn modd sy'n wahanol i'r hyn a nodwyd yn y cais am newid gorchymyn.

(12) Nodir penderfyniad y Cyngor a'r rhesymau dros y penderfyniad yn gyhoeddus.

(13) O fewn sait diwrnod i ddiwedd y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad, yn cynnwys y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor, at:
(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) y cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai);

(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol.

(14) Caiff y Cyngor hysbysu:

(a) Llywodraeth Cynulliad Cymru;
(b) yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

(15) Os gwrthodir y cais am newid neu ddirymu amod, ni chaiff cais pellach am newid neu ddirymu amod a nodwyd yn y Gorchymyn hwnnw ei wneud o fewn 12 mis calendr i'r dyddiad y penderfynwyd ar y cais gwreiddiol, neu o fewn y cyfryw derfyn amser arall ag a bennir gan y Pwyllgor.

## Newid y Gofrestr

33. (1) Os penderfyna'r Pwyllgor ar ôl cael cais o dan Reol 32 y dylid newid neu ddirymu amod, bydd y Cyngor yn newid cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr yn unol â hynny.

## Cydymffurfio ag amod a nodwyd mewn Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal

34. (1) Pan fo Gorchymyn Amodau Ymarfer neu Orchymyn Atal wedi'i wneud gydag amodau, caiff swyddog a awdurdodir yn briodol ofyn i:
(a) yr unigolyn cofrestredig neu
(b) cyflogwr yr unigolyn cofrestredig

am y cyfryw wybodaeth ag a fydd yn galluogi'r Cyngor i benderfynu a gydymffurfiwyd ag amodau'r Gorchymyn neu a barheir i gydymffurfio â hwy.

(2) Pan fo swyddog a awdurdodir yn briodol yn cael gwybodaeth yn unol â pharagraff (1) ac mae o'r farn y cydymffurfiwyd yn llawn â'r amodau bydd y Cyngor yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig a chaiff hysbysu'r personau eraill a nodir ym mharagraffau (11) a (12) o Reol 32 bod y Cyngor yn fodlon y cydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol.

(3) Os:

(a) bydd swyddog a awdurdodir yn briodol yn cael gwybodaeth a geisiwyd yn unol â pharagraff (1) ac mae o'r farn na chydymffurfiwyd â'r amodau; neu

(b) bydd yr unigolyn cofrestredig yn methu â chydymffurfio a chais rhesymol a wnaed yn unol â pharagraff (1),

bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn cyfeirio'r mater at Bwyllgor Ymddygiad os gwnaed y gorchymyn dan sylw gan Bwyllgor Ymddygiad neu at Bwyllgor Iechyd os gwnaed y gorchymyn gan Bwyllgor Iechyd.

(4) Pan fo achos yn cael ei gyfeirio yn unol â pharagraff (2) bydd y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd yn cynnwys personau nad oeddent yn

unigolynau o'r Pwyllgor a wnaeth y Gorchymyn, a fydd yn penderfynu a yw'r unigolyn cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â'r amod neu'r amodau.

(5) Bydd y Clerc yn anfon copi o'r Hysbysiad o Wrandawiad at yr unigolyn cofrestredig, y Cyngor, yr achwynydd, cyflogwr(wyr) yr unigolyn cofrestredig (os oes un/rhai), neu, os yw'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer Myfyrwyr, y Brifysgol, a fydd:

(a) yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) yn nodi a fydd yr achos yn mynd yn ei flaen i'r Pwyllgor Ymddygiad ynteu'r Pwyllgor Iechyd;

(c) yn nodi'r amod(au) dan sylw;

(d) yn nodi'r sail(seiliau) dros honni bod methiant i gydymffurifio â'r amod(au);

(e) yn hysbysu'r partïon am eu priod hawliau:

(i) i ddod i'r gwrandawiad;
(ii) i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor;
(iii) i wneud cyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd fel a nodir ym mharagraff 10 isod;
(iv) i alw a chroesholi tystion;

(f) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am y cosbau posibl y gall y Pwyllgor eu rhoi os canfyddir bod methiant i gydymffurfio ag amod;

(g) yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig am bŵer y Pwyllgor i fynd yn ei flaen yn absenoldeb yr unigolyn cofrestredig, neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig, yn y gwrandawiad;

(h) yn gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ddatgan a fydd yr unigolyn cofrestredig a/neu gynrychiolydd yr unigolyn cofrestredig yn bresennol yn y gwrandawiad.

(i) wedi'i atodi i gopi o benderfyniad y Pwyllgor yn y gwrandawiad pan wnaed y Gorchymyn Amodau Ymarfer neu'r Gorchymyn Atal.

(6) Bydd y weithdrefn yn y gwrandawiad a ail-agorwyd fel a ganlyn:

(a) bydd y Cyflwynydd yn amlinellu ffeithiau'r achos a'r amgylchiadau lle yr honnir bod methiant i gydymffurfio â'r amod perthnasol a chaiff ddangos dogfennau a galw ar dystion i'w gefnogi;

(b) bydd yr unigolyn cofrestredig wedyn yn cyflwyno sylwadau a chaiff ddangos dogfennau, a galw ar dystion i'w gefnogi.

(7) Oni ddarperir fel arall ym mharagraffau (1) i (5) uchod, bydd y Rheolau canlynol yn gymwys i'r gwrandawiad, sef Rheol 7 (Unigolynaeth a chworwm y Pwyllgorau), Rheol 8 (pleidleisio), Rheol 9 (Cynghorydd Cyfreithiol), Rheol 10

(Cynghorydd Meddygol), Rheol 11 (Clerc) a'r Rheolau canlynol yn Atodlen 2, Rheol 5 (Gohirio Dyddiad Gwrandawiad), Rheol 7(1) (Gweithdrefn yn y Gwrandawiad), Rheol 8 (Gwrandawiadau Cyhoeddus a Phreifat), Rheol 9 (Cynrychiolaeth a'r hawl i gael gwrandawiad), Rheol 10 (Tystiolaeth), Rheol 11 (Baich a Safon y Prawf), Rheol 12 (Gohirio Gwrandawiad ar ei ganol), Rheol 13 (Presenoldeb yn y gwrandawiad), Rheol 14 (Ffitrwydd i Bledio), Rheol 15 (Cyflwyno'r Pwyllgor), Rheol 16 (Newid y Cyhuddiad), Rheol 17 (Addefiadau), Rheol 18 (Tystion), Rheol 19 (Tystion bregus), Rheol 20 (Tystiolaeth yr unigolyn cofrestredig), Rheol 21 (Canfyddiadau Ffeithiol), Rheol 23 (Lliniaru), Rheol 26 (Trawsgrifiad o'r achos), Rheol 27 (Darpariaethau pellach i'r Pwyllgor Iechyd) a Rheol 29 (Cyhoeddi'r penderfyniad).

(8) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon bod methiant i gydymffurfio ag amod(au) caiff y Pwyllgor:

(a) gwneud dim gorchymyn; neu
(b) newid telerau'r amod(au) a / neu ymestyn cyfnod y Gorchymyn Amodau Ymarfer neu'r Gorchymyn Atal, sut bynnag; neu
(c) yn achos Gorchmyn Amodau Ymarfer, dirymu'r Gorchymyn a gwneud Gorchymyn Atal neu Orchymyn Dileu; neu
(d) yn achos Gorchmyn Atal, dirymu'r Gorchymyn a gwneud Gorchymyn Dileu.

(9) Nodir penderfyniad y Cyngor a'r rhesymau dros y penderfyniad yn gyhoeddus.

(10) O fewn saith diwrnod i ddiwedd y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad, yn cynnwys y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor, at:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd;
(d) y cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai);
(e) pan fo'r unigolyn cofrestredig wedi ei gofrestru yn y rhan o'r Gofrestr ar gyfer myfyrwyr, y Brifysgol.

(11) Caiff y Cyngor hysbysu:
(a) Llywodraeth Cynulliad Cymru;
(b) yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

**Newid y Gofrestr**

35 (1) Bydd y Cyngor yn newid cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y Gofrestr fel y bo'n briodol:

(a) o dan baragraff (2) o Reol 34 pan fo'r Cyngor yn fodlon y cydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, neu
(b) ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu ar gais o dan baragraffau (3) i (9) o Reol 34.

## ATODLEN 3

## GWEITHDREFN GERBRON Y PWYLLGOR ADFER

### TREFN Y PARAGRAFFAU


1. Dehongliad
2 Terfynau amser ar gyfer gwneud cais
3. Dogfennau i'w darparu i'r Cyngor
4. Dogfennau i'w darparu i'r Ymgeisydd
5. Hysbysiad o Wrandawiad
6. Dogfennau i'w darparu i'r Pwyllgor
7. Gweithdrefn yn y Gwrandawiad
8. Penderfyniad y Pwyllgor
9. Hysbysiad o Benderfyniad
10. Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos
11. Cyhoeddi'r Penderfyniad
12. Newid y Gofrestr
13. Gorchymyn Gwahardd

## Dehongliad

1. (1) Yn yr Atodlen hon:

ystyr "ymgeisydd" yw cyn-unigolyn cofrestredig sy'n ymgeisio am gael ei adfer i'r Gofrestr, yn dilyn Gorchymyn Dileu a wnaed gan y Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd.

(2) Tybir bod cais am adfer yn gais cyntaf am gofrestru o dan Adrannau 57 a 58 o'r Ddeddf, a dylai gydymffurfio â darpariaethau Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Cofrestru), fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

## Terfynau amser ar gyfer gwneud cais

2. (1) Ni cheir gwneud cais i'r Pwyllgor Adfer am adferiad i'r Gofrestr o dan y rheol hon:

(a) o fewn 5 blynedd i'r dyddiad dileu; neu

(b) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis pryd y mae cais am adferiad eisoes wedi'i wneud gan neu ar ei ran y sawl y dilëwyd ei enw oddi ar y Gofrestr.

## Dogfennau i'w darparu i'r Cyngor

3. (1) Yn ogystal â'r dogfennau a nodwyd yn Rheol 4 o Reolau Cyngor Gofal Cymru (Cofrestru), fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, caiff yr ymgeisydd anfon at y Cyngor unrhyw adroddiad, datganiad neu ddogfen arall sydd, ym marn yr ymgeisydd, yn cefnogi'r cais am adferiad.

## Dogfennau i'w darparu i'r Ymgeisydd

4. (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn cais wedi'i gwblhau am adferiad i'r Gofrestr, bydd y Clerc yn anfon at yr ymgeisydd:

(a) copi o drawsgript gwrandawiad y Pwyllgor Ymddygiad neu wrandawiad y Pwyllgor Iechyd, lle gwnaed y Gorchymyn Dileu;
(b) unrhyw ddogfennau y bydd y Cyngor yn dibynnu arnynt;
(c) Hysbysiad o Wrandawiad gerbron y Pwyllgor Adfer; a
(d) copi o'r Rheolau hyn.

## Hysbysiad o Wrandawiad

5. (1) Bydd yr Hysbysiad o Wrandawiad gerbron y Pwyllgor Adfer yn:

(a) nodi dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;

(b) hysbysu'r ymgeisydd am ei hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad a chyflwyno sylwadau llafar i'r Pwyllgor neu i gael ei gynrychioli gan:
(i) cyfreithiwr; neu
(ii) bargyfreithiwr; neu
(iii) cynrychiolydd o Undeb Llafur yr ymgeisydd; neu

(iv) cynrychiolydd o Gorff Proffesiynol yr ymgeisydd neu,

(v) cynrychiolydd o gorff myfyrwyr yr ymgeisydd;

(c) hysbysu'r ymgeisydd y caiff y Pwyllgor, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu i'r ymgeisydd gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r sawl a restrir ym mharagraff (b) uchod;

(d) hysbysu'r ymgeisydd fod yn rhaid anfon unrhyw gais am gael ei gynrychioli gan rywun arall heblaw'r sawl a restrir ym mharagraff (b) uchod at y Clerc o leiaf 48 awr cyn i'r Pwyllgor gyfarfod;

(e) gofyn am gadarnhad a yw'r ymgeisydd yn bwriadu:
(i) bod yn bresennol yn y gwrandawiad;
(ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;

(f) hysbysu'r ymgeisydd nad oes hawl gan unigolyn sy'n bwriadu bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor i gynrychioli neu fod gyda'r ymgeisydd ac sydd hefyd yn bwriadu rhoi tystiolaeth, i fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes y bydd wedi rhoi'r dystiolaeth honno, heb ganiatâd y Pwyllgor.

(2) Ni threfnir y gwrandawiad ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynharach nag 28 diwrnod wedi postio'r Hysbysiad o Wrandawiad gerbron y Pwyllgor Adfer, ac eithrio gyda chytundeb yr ymgeisydd.

(3) Bydd y Clerc yn darparu copi o'r Hysbysiad o Wrandawiad gerbron y Pwyllgor Adfer i'r Cyngor, yr achwynydd gwreiddiol (os oes un), a/neu gyflogwr(wyr) yr ymgeisydd (os oes un/rhai).

## Dogfennau i'w darparu i'r Pwyllgor

6. (1) Saith diwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon at y Pwyllgor gopïau o:

(a) yr Hysbysiad o Wrandawiad gerbron y Pwyllgor Adfer;

(b) y cais am adferiad ac unrhyw ddogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi'r cais;

(c) copi o'r trawsgrifiad o wrandawiad y Pwyllgor Ymddygiad (os oes un) neu gopi o'r trawsgrifiad o wrandawiad y Pwyllgor Iechyd (os oes un) lle gwnaed y Gorchymyn Dileu;

(d) unrhyw ddogfennau y bydd y Cyngor yn dibynnu arnynt.

## Gweithdrefn yn y Gwrandawiad

7. (1) Yn amodol ar baragraffau (2) a (3) isod, cynhelir gweithrediadau'r Pwyllgor Adfer yn gyhoeddus.

(2) Cynhelir gweithrediadau'r Pwyllgor Adfer yn breifat lle gwnaed y gorchymyn i ddileu oddi ar y Gofrestr gan y Pwyllgor Iechyd.

(3) Caiff y Pwyllgor Adfer, ar gais y partïon neu ar gais tyst, neu o'i wirfodd ei hun, eistedd yn breifat, ar yr amod bob amser:

(a) nad achosir unrhyw ragfarn i'r ymgeisydd; a
(b) bod amgylchiadau arbennig yr achos yn drech na'r budd cyhoeddus o gynnal gwrandawiad cyhoeddus;
(c) y gwneir y penderfyniad i eistedd yn breifat ar ôl gwrando ar sylwadau gan y Partïon.

(4) Er gwaethaf yr uchod, cynhelir trafodaethau'r Pwyllgor yn breifat.

(5) Bydd y Cyflwynydd yn amlinellu hanes achos yr ymgeisydd ac amgylchiadau gwneud y Gorchymyn Dileu.

(6) Caiff y Cyflwynydd ddangos i'r Pwyllgor unrhyw ddogfennau a ddangoswyd i'r Pwyllgor Ymddygiad neu'r Pwyllgor Iechyd a wnaeth y Gorchymyn Dileu; ac unrhyw ddogfennau a ddaeth i feddiant y Cyngor ers hynny ac sy'n ymwneud â chymeriad da, ymddygiad, cymhwysedd ac iechyd yr ymgeisydd, a chaiff alw ar dystion i roi tystiolaeth ar y materion hyn.

(7) Bydd yr ymgeisydd neu gynrychiolydd yr ymgeisydd wedyn yn annerch y Pwyllgor ynghylch y rhesymau pam y dylid gwneud gorchymyn adfer.

(8) Caiff yr ymgeisydd ddangos tystiolaeth a galw ar dystion i gefnogi'r cais am adferiad.

(9) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti a'u galwodd, a chânt eu holi gan y parti arall, gan y Pwyllgor, a chan y Cynghorydd Cyfreithiol.

(10) Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor oddi wrth y Cynghorydd Cyfreithiol cyn penderfynu ar y cais am adferiad.

(11) Bydd y Pwyllgor yn cael cyngor gan y Cynghorydd Meddygol cyn penderfynu ar unrhyw gais am adfer mewn perthynas â Gorchymyn Dileu a wnaed gan Bwyllgor Iechyd.

(12) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, ac ar ôl gwrando ar sylwadau gan y partïon, caiff y Pwyllgor ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad ohirio'r achos at ddibenion ceisio gwybodaeth bellach. Pan fo'r gwrandawiad wedi ei ohirio, bydd y Clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r partïon, yr achwynydd gwreiddiol (os oes un) a'r cyflogwr(wyr) (os oes un/rhai) am y dyddiad a bennwyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawiad.

(13) Oni ddarperir fel arall ym mharagraffau (1) i (12) uchod, bydd y Rheolau canlynol yn Atodlen 2 yn gymwys i'r gwrandawiad adfer, sef Rheol 7 (Unigolynaeth a chworwm y Pwyllgorau), Rheol 8 (pleidleisio), Rheol 9 (Cynghorydd Cyfreithiol), Rheol 10 (Cynghorydd Meddygol), Rheol 11 (Clerc) a'r Rheolau canlynol yn Atodlen 2, Rheol 5 (Gohirio Dyddiad Gwrandawiad), Rheol 7(1) (Gweithdrefn yn y

Gwrandawiad), Rheol 9 (Cynrychiolaeth a'r hawl i gael gwrandawiad), Rheol 10 (Tystiolaeth), Rheol 12 (Gohirio gwrandawiad ar ei ganol), Rheol 13 (Presenoldeb yn y gwrandawiad), Rheol 15 (Cyflwyno'r Pwyllgor), Rheol 18 (Tystion), Rheol 19 (Tystion Bregus) a Rheol 20 (Tystiolaeth yr unigolyn cofrestredig).

(14) Bydd baich y prawf i brofi'r ffeithiau ar yr ymgeisydd

(15) Pan fo anghydfod ynglŷn â'r ffeithiau, y Pwyllgor fydd yn penderfynu ar y ffeithiau ar sail y safon sifil, yn ôl pwysau tebygolrwydd.

## Penderfyniad y Pwyllgor

8. (1) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar gais am adferiad ar ddau gam.

(2) Bydd y Pwyllgor yn ystyried yn gyntaf a ddylid adfer yr ymgeisydd i'r Gofrestr, gan roi sylw i:

(a) y rhesymau pam y dilëwyd enw'r ymgeisydd oddi ar y Gofrestr;
(b) tystiolaeth ynghylch cymeriad da, cymhwysedd ac iechyd yr ymgeisydd ar y pryd;
(c) tystiolaeth ynghylch ymddygiad yr ymgeisydd ers dileu ei enw oddi ar y Gofrestr;
(d) diogelu'r cyhoedd; a
(e) budd y cyhoedd mewn cynnal hyder mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

(3) Pan fo'r Pwyllgor yn meddwl adfer cofrestriad ymgeisydd, bydd yn ystyried wedyn a ddylid gwneud cofrestriad yr ymgeisydd yn destun amodau am gyfnod penodol nad yw'n fwy na thair blynedd.

(4) Pan fo'r Pwyllgor yn meddwl gosod amodau ar gofrestriad yr ymgeisydd, bydd yn gwahodd sylwadau penodol gan yr ymgeisydd cyn gwneud ei benderfyniad.

(5) Wrth benderfynu a yw am adfer cofrestriad ymgeisydd, ac os felly, a ddylid gwneud cofrestriad ymgeisydd yn destun amodau, bydd y Pwyllgor yn ystyried egwyddor cymesuredd.

(6) Bydd y Pwyllgor yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad.

## Hysbysiad o Benderfyniad

9. (1) O fewn saith diwrnod wedi diwedd y gwrandawiad, bydd y Clerc yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad at:

(a) yr ymgeisydd;
(b) y Cyngor;
(c) yr achwynydd gwreiddiol (os oes un);
(d) cyflogwr yr ymgeisydd (os oes un);
(e) pan fo'r ymgeisydd yn fyfyriwr, y Brifysgol.

(2) Caiff y Cyngor hysbysu:

(a) Llywodraeth Cynulliad Cymru;
(b) yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

(3) Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn:

(a) cofnodi unrhyw gyngor a roddwyd gan y Cynghorydd Cyfreithiol a'r Cynghorydd Meddygol;
(b) nodi penderfyniad y Pwyllgor;
(c) nodi'r rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor;
(d) rhestru'n glir unrhyw amodau a osodwyd ar gofrestriad yr ymgeisydd;
(e) nodi hawl yr ymgeisydd i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal).

## Nodiadau a Thrawsgrifiad o'r Achos

10. (1) Penodir person gan y Cyngor i gymryd nodiadau gair am air a/neu gwneir trefniadau i recordio'r achos gerbron y Pwyllgor.

(2) Ar eu cais, bydd y Cyngor yn anfon trawsgript at yr unigolyn cofrestredig a'r achwynydd o'r nodyn gair am air neu'r recordiad, o unrhyw ran o'r achos pan fu gan yr unigolyn cofrestredig neu, yn ôl fel y bo, yr achwynydd hawl i fod yn bresennol.

## Cyhoeddi'r Penderfyniad

11. (1) Bydd y Cyngor yn cyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor ym mha fodd bynnag ag y gwêl yn briodol.

## Newid y Gofrestr

12. (1) Ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu y gellir adfer ymgeisydd, bydd y Cyngor yn cofnodi manylion cofrestru'r ymgeisydd ar y Gofrestr, gan nodi unrhyw amodau a osodwyd ar gofrestriad yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.

## Gorchymyn Gwahardd

13. (1) Pan fo ymgeisydd wedi gwneud cais aflwyddiannus o'r blaen am adferiad a bod y Pwyllgor wedi gwrthod y cais presennol am adferiad, caiff y Pwyllgor orchymyn atal am gyfnod amhenodol hawl yr ymgeisydd i wneud unrhyw geisiadau pellach am adferiad ("Gorchymyn Gwahardd").

(2) Ni fydd y Pwyllgor yn gwneud Gorchymyn Gwahardd hyd nes y bydd wedi gwrando ar sylwadau ar y mater hwn gan yr ymgeisydd.

(3) Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn Gwahardd ai peidio, bydd y Pwyllgor yn ystyried egwyddor cymesuredd.

(4) Pan fo Gorchymyn Gwahardd wedi'i wneud, caiff yr ymgeisydd wneud cais i'r Pwyllgor, yn ysgrifenedig, am ganiatâd i wneud unrhyw geisiadau pellach am adferiad.

## ATODLEN 4

## CYRFF RHEOLEIDDIO CYMERADWY

Cymdeithas Seicolegol Prydain

Y Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol

Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr

Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon

Cyngor Addysgu Cyffredinol Yr Alban

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Cyngor y Proffesiynau Iechyd

Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon

Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban